

ECO'R WYDDFA

RHIF 321

EBRILL 2005

PRIS 40c

PERYGL I LYFRGELL LLEOL

Yn ôl adroddiad Cyngor Cymuned Llanddeiniolen mae perygl i Lyfrgell Deiniolen gau os na wneir mwy o ddefnydd ohoni. Erfynnir ar bawb i ddefnyddio'r gwasanaeth neu ei golli

Plant y Fro yn dathlu Gŵyl Ddewi



Ysgol Feithrin Llanrug.



Ysgol Waunfawr.



Ysgol Waunfawr.



Ysgol Penisarwaun.

Band Deiniolen yn Bencampwyr

(Mwy o'r hanes ar dudalen 16)



ECO'R WYDDFA

**RHIF 321
EBRILL 2005**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prj.wales.com

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, 18 EBRILL

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 28 EBRILL

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
MAI	18 Ebrill	28 Ebrill	Deiniolen	Jean P Jones	871550

Llythyrau

APÊL TSWNAMI LLANBERIS

Carwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at Apêl Tswnami a drefnwyd gan bwyllgor Llanberis o Cymorth Cristnogol yn sgil y drychineb yn Ne-ddwyrain Asia. Cafwyd ymateb hael iawn gan unigolion a chymdeithasau a busnesau, ac erbyn i ni gau'r Apêl ddechrau mis Mawrth yr oedd cyfanswm o £4,565.45 wedi ei gyfrannu.

Diolch yn fawr iawn i'r siopau a'r gwestai a'r tafarndai am ganiatau i ni adael blychau casglu gyda hwy. Diolch yn fawr hefyd i'r unigolion a'r mudiadau a'r cymdeithasau a gyfrannodd yn ystod y Dydd o Roddion a gynhaliwyd yn festri Capel Coch ar Ionawr 5 ac wedi hynny.

Dyma restr o'r cyfraniadau:

Siopau a Gwestai

Becws Eryri	10.41
Cost Cutter	127.77
Clwb y Lleng Brydeinig/ British Legion	106.78
Formag	8.03
Garth Maelog	101.36
Gwesty'r Dolbadarn	13.96
Gwesty'r Fictoria	5.00
Gwesty Gwynedd	21.28
Gwesty'r Prince of Wales	83.24
Joe Brown	92.23
Outsider	8.40
Pen y Bryn	27.34
Pete's Eats	162.25
Saffron	58.00
Sea Fresh Fish & Chips	34.43
Siop Fferm Fêl yr Wyddfa	78.69
Spar	330.83
Ty'n Llan, Nant Peris	30.10
Y Bistro	145.00

Mudiadau

Canolfan Gymdeithasol Llanberis	1000.00
Clwb Cymdeithasol Llanberis a'r Cylch	200.00
Pwyllgor Chwiorydd Capel Coch	100.00
Cymdeithas Lenyddol Llanberis	100.00
Parti Nos Galan Mary	40.10

Rhoddion Unigolion

Dydd o Roddion
ac ers hynny 1680.25

Cyfanswm 4565.45

Unwaith eto, diolch o galon am y gefnogaeth ardderchog. Diolch i bawb a fu'n helpu gyda'r Apêl, yn arbennig Mrs Carol Beddoe a Mrs Ann Parry.

JOHN PRITCHARD
Cilfynydd
Trefnydd Cymorth Cristnogol
yn Llanberis

I sylw cyn-ddisgyblion Ysgol Sir Brynrefail 1900-1955

Bu i ni, sydd â'n henwau isod, ddigwydd cyfarfod ar faes y Brifwyl y llynedd. Gan fod y brifwyl eleni yng ngardd y Faenol, teimlwn y dylem geisio trefnu aduniad o gyn-ddisgyblion yr ysgol ar bnawn Iau neu Gwener y 'Steddfod mewn man cyfleus ar y maes. Er mwyn canfod a fydd hi'n werth i ni drefnu ymhellach, gofynnwn i'r sawl ohonoch fydd yn bwriadu dod i'r aduniad i gysylltu hefo un ohonom. Mae rhif ffôn pob un ohonom isod.

Hefyd, os gwyddoch am berthynas neu gydnabod sy'n byw tu allan i Wynedd a Môn ac sydd yn bwriadu dod i'r Steddfod, gadewch i ni wybod. Rhwng rwan a rhifyn Gorffennaf o'r Eco byddwn yn eich bwydo â threfniadau a datblygiadau pellach.

MAIR DAVIES (Llanberis) a

HUW GWYNFA ROBERTS
(Llanrug): (01286) 830655;

OWEN GRIFFITH, (Tan-y-coed):
(01286) 674503;

EIFION HUGHES, (Racca a
Llanrug): (01248) 410474;

IFAN WYN WILLIAMS
(Brynrefail): (01248) 722312.

Theatr Bara Caws yn cyflwyno Ffernols Lwcus

Ar Daith trwy Gymru 7-30
Ebrill 2005

Lotto lwc, lotto hwyl, lot o chwerthin a lot o ddagrau... Addasiad Bryn Fôn o ddrama John Godber, *Lucky Sods*.

'Hi brynodd y tocyn, fo bigodd y rhifa', nhw enillodd. Ffernols lwcus. A rw'an mae'i breuddwydion nhw i gyd yn mynd i ddod yn wir... tydyn

Yn addasiad Bryn Fôn o ddrama chwerw felys John Godber *Lucky Sods*, mae Bara Caws yn cymryd cip hytrawst ar natur lwc ac anlwc. 'Mi all o fod yn fi, ydi gobaith pob un sy'n llenwi'i docyn lotto, ond faint gymerith o i droi yn 'Be 'dwi 'di neud i haeddu hyn...?'

Yr actorion:

Gwenno Elis-Hodgkins, Catrin Fychan, Wyn Bowen Harries ac Eilir Jones.

Cyfawryddwr: Tony Llewelyn
Cynllunydd: Emyr Morris-Jones.

Yn ardal yr Eco

7-9 Ebrill:

Theatr Gwynedd, Bangor

23 Ebrill:

Y Galeri, Caernarfon

TAITH GERDDED: 'NABOD ARDAL

Pnawn Sul, Ebrill 10fed am 1.00pm.

Cyfarfod wrth Bont Penllyn.

Oedolion £2. Teuluoedd (3 neu fwy) £5.

Dewis o deithiau - yn dibynnu ar y nifer ac oedran y cerddwyr!

Arweinydd: Dafydd Whiteside Thomas:
(Ffôn: 01286 673515)

Angen esgidiau cryf (a phaned os mynnwch)
Elw tuag at Gronfa Leol Eisteddfod Eryri.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

caban

I fwyta ac yfed
mewn awyrgylch
braf, deuluol,
galwch acw!

YR HEN YSGOL,
BRYNREFAIL

FFÔN: 01286 685462

Rhan o Brosiect
Dylunio a Menter Eryri



Annwyl Ddarllenwyr

Mae Myfanwy Jones o Dalysarn yn gobeithio cael help darllenwyr yr Eco i olrhain ychydig o hanes ei theulu, sydd yn hannu o Afon Rhos yn Llanrug. Mae'n gwybod hanes nifer o'r aelodau, ond ddim yn adnabod y wynebau i gyd yn y lluniau isod.

Gwyddom mai ei nain, Margaret Williams (a anwyd yn

1877 yn 5 Glanrafon Terrace, Llanberis) yw'r ddynes yn y llun gyda'i dwy ferch, Mary (anwyd 1903) a Margaret (1904). Credir iddi symud i'r de i fyw, i ardal y Rhondda, ar ôl 1904. Ni wyddir dim o'i hanes cyn iddi farw yno yn 1913/1914, na phwy yw'r gŵr yn y lluniau. Tybed a oes rhywun yn ei adnabod?

Roedd Margaret yn ferch i Hugh R. Williams, Afon Rhos



Margaret Williams (1877), Afon Rhos. Mary ar y chwith, Margaret (Mam) ar y dde. Pwy yw'r gŵr yn y llun?

Brwydr y Bandiau Cymdeithas yr Iaith 2005

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, prif drefnwyr gigiau Cymraeg, wedi cyhoeddi cystadleuaeth *Brwydr y Bandiau* 2005 gyda'r ffeinal i'w chynnal yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Eryri fis Awst, a'r pecyn gwobrau gorau eto i'r enillwyr lwcus.

Nod y gystadleuaeth yw dod o hyd i, a rhoi llwyfan i dalentau newydd Cymraeg a rhoi hwb ymlaen iddynt i fod yn llwyddianus yn y Sin Roc Gymraeg am flynyddoedd i ddod. Yn hyn o beth mae *Brwydr y Bandiau* wedi bod yn hynod effeithiol yn y gorffennol gyda Java a Pala – cyd-enillwyr yng Nghasnewydd y llynedd, wedi gigio'n gyson yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra fo Mattoidz – enillwyr eisteddfod Tyddewi 2002 – bellach yn un o fandiau amlycaf a mwyaf poblogaidd Cymru.

Er mai bandiau ifanc sydd yn draddodiadol wedi cystadlu mae'r gystadleuaeth yn agored i bob oedran. Yr unig amodau yw fod y band yn gallu cynnal set 15 munud o ganeuon Cymraeg gwreiddiol ac nad ydynt eisioes wedi recordio unrhyw gynnyrch.

Bydd enillwyr cystadleuaeth *Brwydr y Bandiau* 2005 yn cael cyfle i:

- Chwarae ar Sadwrn ola'r Steddfod Genedlaethol, gan gefnogi rhai o brif fandiau Cymru;
- Recordio sesiwn ar gyfer C2 ar Radio Cymru;

- Sesiwn recordio a chyfle i ryddhau deunydd ar label Rasal;
- Cyfres o gigs wedi'u trefnu gan Gymdeithas yr iaith mewn gwahanol rannau o Gymru;

Meddai Owain Schiavone, Swyddog Adloniant y Gymdeithas:

'Un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu bandiau ifanc – ac mae yna ddigonedd ohonyn nhw ledled Cymru – ydi gwneud y *break-through* cynta, y gig cynta a'r recordiad cynta. Dyna ydi pwrpas *Brwydr y Bandiau* Cymdeithas yr Iaith, sef rhoi'r cyfle yna i fandiau newydd berfformio ar lwyfan, nid yn unig yn yr Eisteddfod ei hun ond yn ystod y flwyddyn wedyn.

Wrth gwrs, mae'r cyfle i recordio eu deunydd yn rhywbeth y mae pob band sy'n dechrau allan yn breuddwydio amdano, a rydan ni'n falch iawn o allu gwireddu hyn ac, wrth gwrs, ychwanegu at gryfder y Sin Roc Gymraeg yr un pryd. Bandiau ifanc ydi dyfodol cerddoriaeth Gymraeg wedi'r cyfan, a busawn i'n annog unrhyw un sydd mewn band i roi cynnig ar y gystadleuaeth.'

Y dyddiad cau ar gyfer cystadlu yw Mai 2il 2005.

Mae ffurflen gofrestru ar gael o wefan y Gymdeithas:

<http://www.cymdeithas.com>

trwy ebostio:

adloniant@cymdeithas.com

neu ffonio'r Swyddfa ar

01970 624501.

Llanrug, a Margaret Griffith, 2 Mur Mawr, Llanberis. Tybed a'i nhw yw'r cwpwl smart, ac mai rhai o'u plant eraill, Owen (1869), William (1870), Richard (1872), Eliza (1874), Hugh (1876), Ellen, (1879), John, (1880) neu Robert (1882), sydd yn y llun.

Os oes ganddoch chi unrhyw wybodaeth a wnewch chi gysylltu â Myfanwy Jones ar 01286 881284 os gwelwch yn dda.

Gyda diolch.



Pwy yw'r cwpwl smart?



Nain a taid?

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)

CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Clebran

Yn ddiweddar daeth Clebran, Barnado's Cymru, sef grŵp o bobl ifanc anabl, a Rygarug at ei gilydd i gael diwrnod o hwyl yn Ysgol Penisarwaun. Cafwyd gweithdai gan 'Dawns i Bawb', sgiliau syrcau gan James Carpenter a sesiwn drymiau

gyda Colin Daimond o Pooch Music.

Hefyd i orffen y diwrnod cafwyd perfformiad arbennig gan Elin Fflur lle'r oedd y plant a theuluoedd yr ardal wedi dod yno ifwynhau.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo ac yn arbennig i'r plant a phobl ifanc a fynychodd. Gobeithir cynnal sesiwn debyg eto yn y dyfodol.



R. L. DAVIES

Coed Boly'n Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tunnall diggers bychain ac excavators 360° newyddda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620

Ymddeoliad

Ffon Castanwydden

Pren Castan yw, pren costus – a chorn buwch

Yw ei charn cyfforddus; Gwerth mwy yw nag aur na thus I'r hen a gerdda'n hoenus.

BERT PARRY



Y Parchedig John Owen a Bert Parry wedi'r oedfa.

MAE'R Parchg John Owen, Rhuthun, wedi ymddeol o fod yn weinidog eglwys ers diwedd mis Rhagfyr 2004. Bu Mr Owen yn weinidog yn Rhuthun am 27 o flynyddoedd. Cyn hynny bu'n weinidog yn Llanberis am 13 o flynyddoedd. Yn Llanberis wrth gwrs y cychwynnodd ei yrfa fel gweinidog, a bu'n weinidog ym Mhreswylfa, Gorffwysfa, Capel Coch a Rehoboth, Nant Peris. Gwnaeth lawer o ffrindiau yn yr ardal hon, a bu'n weithgar iawn yma, a gwerthfawrogwyd ei wasanaeth a'i gymorth fel gweinidog. Yn ogystal â'i waith fel gweinidog cyfrannodd yn helaeth at waith Aelwyd yr Urdd a Chwmni Drama Llanberis.

Cynhaliwyd oedfa arbennig yng nghapel Tabernacl, Rhuthun, nos Iau, Rhagfyr 30, i nodi ei ymddeoliad, a chynrychiolwyd ei hen ofalaeth yno gan y Parchg John Pritchard a Mr Bert Parry. Cafwyd croeso arbennig yno, ac yn ystod yr oedfa cyfeiriodd Mr Owen at y cyfnod a dreuliodd yn Llanberis fel cyfnod hapus iawn a mynegodd ei falchder o weld ei ofalaeth gyntaf yn cael ei chynrychioli yn y cyfarfod. Dymunwn bob bendith a ieuchyd iddo i fwynhau ei ymddeoliad.

Cyfansoddwyd yr englynion hyn gan Mr Bert Parry i nodi'r achlysur. Mae'r englyn i'r Ffon Gastanwydden yn cyfeirio at ffon gerdded a gerfiwyd gan Bert ac a roddwyd yn anrheg i Mr Owen.

John

Gŵr siriol o Gors Eira – un duwiol,
Ond diawl ar adega';
Hwn a dry ym myd drama:
Cymeriad gwiw, Cymro da.

Aeth o Lanbêr werinol – gadawodd
Gyd-addolwyr plwyfol;
Troi i fangre mwy trefol,
Nythodd yno, ni ddaeth 'nôl.

Un geirwir ac unigryw – ei grefydd
Yn gryf a diledryw;
A bugail di-ail ydyw,
Gyrr ei braidd gerbron ei Dduw.

I gyfarch ac i ddiolch i

**Beryl Griffiths,
Maes Gwylfa, Deiniolen**
ar ei phen-blwydd yn 90

Cyn warden sydd yn dathlu
Pen-blwydd arbennig iawn,
A heddiw gorfoleddwn
Am fywyd prysur, llawn;
Mae Beryl byth yn rhoddi
Gwasanaeth triw i'w Duw
Ac yntau iddi hithau
Yn Dad, sydd wrth y llyw.

Fe gafodd deulu dedwydd
I'w meithrin yn y gwir
A fu yn sylfaen iddi
Dros y blynyddoedd hir;
Fe droediodd lawer milltir
Bob Sul i foli'r Crist
A fu'n gynhaliath iddi
Trwy'r dyddiau llon a thrist.

CANON GERAINT EDWARDS,
LLANFECHELL, MÔN


Cefnogwch ein Hysbysebwy



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

O SIAMBAR SELWYN

MAE 'NA amryw wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r sylwadau 'eisteddfodol' sydd wedi ymddangos yn y Siambar yn ddiweddar. Diolch i chi am eich diddordeb ac am eich geiriau caredig. Diolch i Margaret Cynfi, Deiniolen am ffeithiau diddorol am deulu y baswr a enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl 1900, sef ei thaid William Ellis. Diolch hefyd i gyfeillion Cymdeithas yr Eglwys, Deiniolen, am y croeso a'r noson ddifyr a gefais yn eich cwmni yn ddiweddar.

Gan fod Prifwyl y Faenol yn agosáu, efallai mai diddorol fyddai rhoi cip yn ôl a sylwi pwy oedd wrth y llyw pan gynhaliwyd y brifwyl ar gyrion hen dre Caernarfon yn 1959, ac o bosib cael sôn am Brifwyl 1979 yn ddiweddarach.

'Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon', oedd teitl yr eisteddfodau a gynhaliwyd yn yr hen dre rhwng 1862 a 1935 (6 ohonynt). Ond pan gynhaliwyd eisteddfod 1959, rhaid oedd ymestyn y ffiniau a'i galw yn 'Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a Dosbarth Gwyrfa'.

Erbyn 1979, 'Eisteddfod Caernarfon a'r Cylch' oedd hi, ac erbyn daw'r brifwyl i Barc y Faenol, bydd wedi ymestyn ei ffiniau o Aberdaron i Abergwyngregyn. Ia 'Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau' fydd Eisteddfod 2005.

Dyma rai enwau cyfarwydd oedd yn weithgar ynglŷn ag Eisteddfod 1959. Is-Gadeirydd: D. M. Evans; (Clerc Cyngor Dosbarth Gwyrfa) ac R. H. Owen, Llanberis (Robin

Pengwaith). Cyfarwydd hefyd yw enwau Cadeiryddion rhai o'r pwyllgorau - amryw ohonynt yn gysylltiedig â Bro'r Eco.

Llên: Y Cyn Archdderwydd William Morris;

Drama ac Adrodd: O. Percy Griffith;

Cerdd: Peleg Williams;

Cerdd Dant: T. Gwynne Jones;

Celf a Chrefft: Owen Ellis, Deiniolen;

Cyhoeddusrwydd: Parch D. Terry Thomas;

Yr Orsedd: Cemlyn Williams, fy hen athro chwaraeon yn Ysgol Syr Hugh Owen;

Pafiliwn a Maes: Tegid Lloyd Roberts;

Cyllid: Alwyn Hughes Jones.

Ac er bod bron i hanner canrif wedi mynd heibio mae amryw o'r enwau yn aros yn fyw ar y cof.

Roedd eraill o Fro'r Eco yn weithgar gydag Eisteddfod 1959. Rhai fel W. C. Thomas (Gwilym Bethel) oedd yn Ysgrifennydd y Pwyllgor Cerdd Dant. Brodor o Fethel ac un o sefydlwyr Eisteddfod Lewis's Lerpwl. Fo hefyd oedd Ysgrifennydd yr Wyl Gerdd Dant gyntaf erioed a gynhaliwyd yn y Felinheli.

Roedd R. Gwynn Davies, y Waunawr, yn un o'r Cyfreithwyr Mygedol; Cledwyn Williams, Llanrug yn Ysgrifennydd Pwyllgor Celf a Chrefft; Rol Williams, y Waunfawr, oedd Ysgrifennydd y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd, a'r diweddar Morris D. Jones, Llanrug, oedd Ysgrifennydd Pwyllgor yr Orsedd.

Y drefn yn y dyddiau hynny

oedd cael Llywydd ar gyfer pob dydd, a'r rhai a gafodd yr anrhydedd yn 1959 oedd: Y Prifathro Gwilym Bowyer; Goronwy O. Roberts A.S.; Dr Emyr Wyn Jones; Peter Thomas A.S. a J. E. Owen Jones.

Llywydd y Gymanfa oedd y diweddar Dr Gwilym ap Vychan Jones, y Felinheli, a'r Arweinydd - wel pwy ond Dilys Wynne Williams.

Arweinyddion yr Wyl oedd, Ifor Bowen Griffith, Meic Parry a Hywel D. Roberts, a'r Archdderwydd, wrth gwrs, oedd William Morris.

Rhai o brif enillwyr yr Adran Llên oedd: Y Gadair - T. Llew Jones, am yr ail flwyddyn yn olynol; Y Goron - Tom Huws o Gaerdydd ond brodor o'r Groeslon. Bu ei bryddest fuddugol, 'Cadwynau', am ei ardal enedigol, yn ddarn adrodd hynod o boblogaidd.

Gwelir enwau cyfarwydd hefyd ymysg yr enillwyr eraill, rhai fel Tom Parri Jones (Tom Tŷ Pigyn), Sir Fôn; Alun Jones y Cilie; Dic Jones; Emrys Edwards, Caernarfon, a oedd yn ail am y Gadair, a W. J. Gruffydd (Elerydd).

Yn yr Adran Rhyddiaith, gwelir enwau Eigra Lewis Roberts ar y Nofel a John Rowlands, yr Ysgrif.

Roedd 'na 20 wedi cynnig am y Gadair, a chyd-ddigwyddiad diddorol ydi, i'r un llinell yn union ymddangos yn awdl T. Llew Jones ag a gafwyd yn awdl 'Min-y-Môr', Meuryn, yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1921, sef 'Aderyn du draw'n y dail'.

Roedd 'na 44 yn awyddus i gipio'r Goron a 285 yn cystadlu ar yr englyn, 'Y Ffon Wen', a'r buddugol oedd J. Alun Jones, Llangrannog. Ei fug-enw oedd Tap, tap-tap.

Rhag damwain, claeu gydymaith, - arwydd wen

Ar ffordd ddu ei noswaith;

Dyma radar ei rwydwaith

Lywia'r dall wrth deimlo'r daith.

Efallai y caf gyfle i fwrw trem yn ôl dros Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch 1979, y tro nesa'.

UN FUNUD FACH

MWY NA LLAWER

Roedd Evan Davies, sylwebydd y BBC ar faterion ariannol wedi bod yn trafod gwariant arfaethedig Llafur Newydd a'r Toriaid ar wasanaethau cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf. Ar ddiwedd y cyfweiliad gofynnodd cyflwynydd y bwletin newyddion iddo faint mewn gwirionedd o wahaniaeth oedd rhwng cynlluniau gwario'r ddwy blaid. Ac meddai Davies, 'Mwy nag ychydig, a llai na llawer.' Doedd clywed hynny yn synnu neb sydd wedi tybio ers etholiad neu ddau bellach bod Llafur Newydd a'r Toriaid yn gefndryd go agos os nad yn frodyr go bell.

Byddai llawer yn deud mai felly y mae hi hefyd ym myd crefydd, ac yn arbennig felly ym mherthynas Cristnogaeth â chrefyddau eraill. Faint o wahaniaeth sydd rhwng un grefydd a'r llall? 'Mwy nag ychydig, a llai na llawer,' ym marn amryw byd o bobl, mae'n debyg. Ond barn na allwn fel Cristnogion gytuno â hi fyddai honno. Faint o wahaniaeth sydd rhwng Cristnogaeth a chrefyddau eraill? 'Mwy nag ychydig, a mwy hefyd na llawer.'

Felly rwy'n ei gweld hi. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y Ffydd Gristnogol a phob ffydd arall. Nid yw'r grefydd Gristnogol ar yr un gwastad â chrefyddau eraill. Ond rwy'n barod iawn i ailystyried pethau. Rwy'n fodlon cael fy mherswadio fel arall. Ac o gael fy mherswadio, bydd y golofn hon a'm holl weinidogaeth yn wahanol iawn eu pwyslais. A dim ond un peth fydd ei angen i newid fy meddwl yn llwyr.

Pan fydd sylfaenydd neu arweinydd crefydd arall yn cyflwyno ei neges ac yn glir; ac yn gwneud daioni mawr; ac yn dangos cariad hyd yn oed at ei elynion; ac yna yn wirfoddol yn ei ildio ei hun i ddwylo ei wrthwynebwyr; ac yn bodloni i gael ei ladd yn y ffordd fwyaf erchyll bosibl; ac yn cael ei gladdu mewn bedd; ac yna yn dod yn ôl yn fyw; byddaf yn fwy na pharod i gydnabod bod ei grefydd ar yr un gwastad â'r Ffydd a roed unwaith i'r saint.

Hyd nes y digwydd hynny, byddaf fi, fel miliynau o ddilynwyr Iesu Grist, yn dal i fynnu bod y Ffydd Gristnogol yn sylfaenol wahanol i bob crefydd arall. Rhoddodd Gŵyl y Pasg eleni eto gyfle i ni gyhoeddi'r Gwardwr cwbl unigryw a roddwyd i ni yn Iesu Grist, Mab y Duw Byw.

JOHN PRITCHARD

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

STEPHEN JONES

✦ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YSGOL GYMUNEDOL PENISARWAUN

Llongyfarchiadau i Mrs Jen Morris ar enedigaeth mab, Idwal Temple Morris. Pob lwc iddynt i'r dyfodol. Hoffwn hefyd groesawu Miss Ceri Jones i'n plith sy'n cyflenwi yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Morris.

Llongyfarchiadau i Magi Tudur ar ennill cystadleuaeth Nadolig, Llyfrgell Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Clare Donnelly am gael cyntaf yng nghystadleuaeth gala nofio ym Mangor, yn ogystal enillodd hefyd Belt Piws 'carati'. Gwylwch chi eich hun, Clare!!!

Bu disgyblion yr Urdd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Diolch i Mrs Humphreys am eu hyfforddi. Gwellhad. Dymuna disgyblion a staff yr ysgol wellhad buan i Anti Jean yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Mae chwith heb ei hiwmor hwyliog!

'Watch Out' Cyngor Gwynedd!!! Bu etholiadau a phleidleisio mawr yn yr ysgol ar ddechrau'r flwyddyn

pan sefydlwyd Cyngor Ysgol. Dewiswyd cynrychiolwyr o bob Blwyddyn.

Cynrychiolwyr Blwyddyn 6: Siôn Dafydd Phillips (Y Cadeirydd), Carwyn Fon Jones a Dewi Griffith (Is-Gadeiryddion). Cynrychiolwyr Blwyddyn 5: Catrin Heledd (Trysorydd), Elliw Griffith (Ysgrifenyddes). Blwyddyn 4: Sophie Mc Gunniess a Harri Kyle. Blwyddyn 3: Cai Glyn Oliver a Nia Eyllt Griffith. Adran y Babanod: Sion Jarvis a Mared Elen Jones. Yn ystod y mis diwethaf mae'r cyngor wedi sefydlu Siop ffrwythau, ysgrifennu llythyr i'r cynulliad yn holi am grantiau am beiriant dŵr i'r ysgol, ac i'r cyngor i gael cefnogaeth i drin y cae pêl-droed. Mae llawer o weithgareddau dan sylw. Pob lwc i'r criw yn eu swyddi. Gwylwch eich hun, Mrs Larsen, dyma gynghorwyr ein dyfodol!!!

Elusen. Yn ystod y mis diwethaf mae disgyblion yr ysgol wedi codi arian tuag at elusen diwrnod trwynau coch.



Taith breswyl Caerdydd.

disgyblion a'r athrawon amser ardderchog ym mhrif ddinas Cymru. Yn ystod yr ymweliad bu'r disgyblion yn ymweld ag amrywiaeth o atyniadau addysgol e.e Caer Rufeinig Caerleon, Pwll Mawr, taith o amgylch Stadiwm y Mileniwm, Sain Ffagan, Techniquet a'r Cynulliad. Yn ogystal bu'r plant yn cefnogi Cymru yn y stadiwm yn ystod gêm bêl-droed Cymru yn erbyn Hwngari. Profiad anhygoel ac enw'r ysgol yn cael ei darlledu yn ystod hanner amser. Rhaid cofio. Cymru a enillodd o ddwy gôl i ddim. Roedd hyn yn ychwanegu at y daith.

Yn ffodus iawn roedd un o'r disgyblion yn filfed plentyn i aros yng ngwersyll newydd yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm. Yn ystod ein taith o amgylch Canolfan y Mileniwm cafodd y disgyblion weithgaredd cerddorol yng nghwmni Eilir, sef arweinydd Côr CF1, oedd yn rownd derfynol 'Côr y Byd'. Cafodd rhai o'r disgyblion eu ffilmio ar gyfer rhaglen deledu *O flaen dy Lygaid*, a fydd yn cael ei darlledu yn y dyfodol agos.

Taith Glynllifon. Bu Blwyddyn Derbyn, 1 & 2 ar drip addysgol i Glynllifon i gyd-fynd â thema 'Ar y Fferm'. Cawsant ymweld â fferm y Coleg yn y bore gan fwydo'r moch swllyd, dweud helo wrth yr ieir a'r cwningod a'r llygod ac ymweld â'r parlwr godro. Wedi bwyta'r picnic allan yn yr awyr agored oherwydd prysurdeb Caffi'r Gath Ddu buont i mewn yn y twnnel tywyll a chafodd pawb hwyli wrth drio cael Mrs White i mewn.

Rownd y parc oedd hi yn y pnawn, dan arweiniad hwyliog Nathan.

Gweithdy Barddoniaeth. Bu disgyblion blynyddoedd 3,4,5 & 6 yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis. Cafodd y disgyblion weithdy barddoniaeth dan arweinyddiaeth Mei Ma a Geraint Lovgreen. Erbyn diwedd y prynhawn roedd y disgyblion wedi llunio cân ysgafn / cerdd yn cyfleu y gwahaniaeth rhwng bywyd y Chwarelwr a bywyd Arglwydd Penrhyn.

Blas ar Ysgol Brynrefail. Cafodd disgyblion blwyddyn chwech gyfle i flasau'r hyn fydd yn eu hwynebu fis Medi wrth fynychu ysgol Brynrefail ar yr 15/03/05.

Gweithgareddau i'r dyfodol. Mae disgyblion Blwyddyn 5 & 6 yn cael cyfle i gymryd rhan yn ail gyfres y rhaglen deledu 'Waaa' sydd yn

cael ei ffilmio yn Barcud ar fore Gwener 18 o Fawrth.

Nos Lun am 6.30 yr hwyr cynhelir Sioe Ffasiynol gan y disgyblion i godi elw tuag at Gyfeillion yr Ysgol. Diolch i'r pwyllgor am eu hymroddiad.

Mae cynnwrf mawr yn yr ysgol ar gyfer y gêm bêl-droed gyntaf sydd i'w chynnal ar y 23 o Fawrth yn erbyn Ysgol Y Gelli. Mae'n anodd dweud pwy sydd â'r cynrhon mwyaf, y disgyblion neu'r hyfforddwr, Iwan Harding!!

Cynhelir Ffair lyfrau yn yr ysgol rhwng y 12-15 o Ebrill.

Bydd disgyblion yn cael eu ffilmio ar gyfer rhaglen deledu *Ribidires* ar yr 14/04/05

CRONFA'R PENSIYNWYR.

Enillydd Pêl Bonws Loteri mis Chwefror oedd Rhif 33, sef Mrs E. Williams, 2 Bryntirion.

Llongyfarchiadau.

Cynhaliwyd Noson Bingo llwyddiannus nos Wener, 18 Mawrth. Gwnaed elw o £160. Diolch i bawb am y gefnogaeth. DIOLCH. Dymuna Haydn Jones, 24 Bryntirion, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed ar 28 Chwefror.

Dymuna Jean Jones, 24 Bryntirion, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â Dave Paterson a'r teulu, 1 Bryntirion, ar y golled fawr ym marwolaeth tad Dave yn yr Alban. MARWOLAETH. Yn dawel yng Nghartref Foelas, Llanrug, bu farw Mrs Alice Thomas, gynt o Meillionydd, a hithau'n 97 mlwydd oed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Elfyn a Margaret a'u teuluoedd o golli mam, nain a hen nain arbennig iawn.

YSGOL SUL BOSRA. Wedi'r Pasg bydd amser prysur o flaen y plant gyda Chymanfa'r Annibynwyr yn cael ei chynnal yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen ar 22 Mai am 2 o'r gloch. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid ym mis Mehefin.

Dymuna holl aelodau'r Ysgol Sul anfon eu cofion anwylaf at Miss Jean Parc Jones, Ysgol Sul Ebeneser, Deiniolen, gan ddymuno'r dymuniadau gorau iddi wrth dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Rydym hefyd yn falch o glywed fod Anti Jean, Bryntirion, yn gwella, ein cofion annwyl atoch chithau.



Dydd Gŵyl Dewi.

Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd cyngerdd a chinio arbennig ar Fawrth y cyntaf i gofio Dydd Gŵyl Dewi. Daeth y disgyblion i'r ysgol wedi gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig.

Diwrnod y llyfr. Cafwyd diwrnod hynod o ddiddorol yn yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o lyfrau a deunyddiau Cymraeg sydd ar gael. Daeth y disgyblion i'r

ysgol wedi gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod y dydd e.e, trafod hoff lyfr, creu clawr, ysgrifennu portread o hoff gymeriad, cynnal adolygiadau o lyfrau, yn ogystal ag ysgrifennu stori gadwyn. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn.

Taith breswyl Gaerdydd. Wel, wel, well! sôn am hwyli!! Cafodd y



Diwrnod y llyfr.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar 17 Ebrill, wedi gwyliau'r Pasg.

CRONFA APÊL BOSRA. Mawrth 10 cafwyd cyngerdd i'w gofio yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris, Llanberis. Swynwyd tyfa deilwng iawn â'u canu soniarus a disgybledig a chafwyd môr o chwerthin wrth fwynhau eu sgets ddoniol dros ben. Diolchir hefyd i blant Ysgol Sul Bosra a'u ffrindiau parod am ganu mor dda a bywiog. Llawer o ddiolch i brifathro'r ysgol, Mr Gareth Jones, a Mrs Humphreys am ddatganiad swynol plant yr ysgol a'r Urdd.

Diolch o galon i'r Côr, y plant i gyd ac i bawb a ddaeth i gefnogi'r fenter fawr sydd o'n blaenau. Llywiwyd y noson yn gelfydd a doniol gan Eifion Harding – digon o jôcs bachog a doniol a darnau adrodd digri dros ben.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd gan sicrhau elw sylweddol o £356. Y mae'r rhoddion ariannol yn llifo i mewn yn ôl y Trysorydd a dymunir diolch o galon i'r rhai sydd eisoes wedi cyfrannu.

Bwriedir cynnal mwy o weithgareddau yn y misoedd i ddod a gobeithir derbyn yr un gefnogaeth.

URDD ADRAN BENTREF.

2 Chwefror: fe fwynhaodd yr aelodau ymweliad â Stiwdio Rownd a Rownd ym Mhorthaethwy.

2 Mawrth: i ddathlu Gŵyl Ddewi cafwyd dawnsio gwerin yng ngofal Mrs Judith Haridng.

9 Mawrth: daeth Aled, Swyddog yr Urdd, i gynnal gemau gyda'r aelodau.

16 Mawrth: trefnwyd cwis gan Geraint George.

23 Mawrth: I orffen tymor llwyddiannus a byrlymus cafwyd sesiwn Bingo.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr lwcus oedd: Mrs Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt; N.C. Williams, 15 Bryntirion; Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr.

Y weithgaredd nesaf i godi arian, a hynny i gael golau tu allan i'r brif fynedfa, fydd **Miri Mai** gyda stondinau o bob math a byrddau sêl cist car. Fe'i cynhelir **nos Wener, 20 Mai am 6.30.** Felly ewch ati i chwilio am nwyddau i'w gwerthu. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

Pwyllgor nesaf: Nos Lun, 11 Ebrill am 7.00 yn yr Ystafell Gymuned.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Buddug Kyffin a Mair Jones, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Anti Cilla.

DIOLCH. Dymuna Eirlys, Ceinwen, Gwenda, Robert ac Eurwyn ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli eu mam, nain, hen nain a hen hen nain annwyl.

Diolch yn arbennig am y cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a'r rhoddion at Tŷ Gobaith. Diolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard a Gwynfor am y trefniadau.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Nos Fawrth, 1 Mawrth, yn Festri Capel Coch cafwyd cwis ar y thema 'Dewi Sant a'i Seintiau' yng ngofal y Parchedig John Pritchard. Rhannwyd y gynulleidfa yn ddwy a chafwyd noson hwyliog, llawn

gwybodaeth.

Bydd tymor y Gymdeithas yn darfod ar Ebrill, gyda'r Cinio Blyneddol yn y Bistro, Llanberis am 7.00 / 7.15 o'r gloch. Y gwahoddedigion fydd Mr a Mrs Dei Tomos, Nant Peris. Diolch i bawb a gefnogodd yn ystod y tymor.

DIOLCH. Dymuna Gwyneth (Plas Tirion) ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd ar 3 Mawrth. Diolch o galon.

LLEISIAU LLIWEDD. Roedd tair o aelodau'r côr yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ystod mis Mawrth. Dathlwyd yr achlysuron gyda pharti yng ngwesty Dolbadarn, gydag adloniant yng ngofal Raymond. Hoffai Gwyneth Roberts, Marcia a Gwyneth P. ddiolch i'r côr am drefnu'r noson.

DIOLCH. Dymuna Hugh Hughes,



CLWB YR HENOED. Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi Clwb yr Henoed yng Ngwesty'r Victoria ar 3 Mawrth 2005.

Dymuna'r aelodau ddiolch i'r Pwyllgor am drefnu'r dathliadau, ac i staff y Victoria am ginio arbennig, hefyd i Aneuryn, Elwyn a Hefina Jones am ddiddanu'r gynulleidfa wedi'r cinio.

Tynnwyd raffl yn ystod y prynhawn ac ymhlith y gwobrau roedd tri theledu, a enillwyd gan Mrs Alice Jones, Mrs Doreen Roberts a Mrs Jennie Williams, gyda'r brif wobr, sef penwythnos yng Ngwesty'r Queens, Llandudno, yn mynd i Mrs Dwynwen Roberts.



87 Maes Padarn, a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth lem o golli Breda, gwraig, mam a nain annwyl iawn. **GWELLHAD BUAN.** Dymuniadau gorau i Daniel Roberts, 4 Bro Glyder, Nant Peris, sydd yn gwella erbyn hyn ac wedi bod yn ddewr iawn ar ôl torri ei goes tra'n chwarae pêl-droed ar iard yr ysgol. Brysia wella Dan.

DYDD GWEDDI. Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwirydd yn Capel Coch nos Sul, Mawrth 6 dan arweiniad Mrs Falmai Pritchard. Yr organydd oedd Mrs Bethan Holding. Cymerwyd rhan gan aelodau eglwys i'r pentref. Gwnaed casgliad o £25 tuag at waith canolog Y Dydd Gweddi. Caiff yr oedfa hon ei chynnal yn flynyddol, ac eleni paratowyd y gwasanaeth gan ferched o wlad Pwyl.

CYFARFOD PLANT CAPEL COCH. Mae tymor y Cyfarfod Plant yn Capel Coch ar brynghawn Mawrth yn dirwyn i ben unwaith eto, ond gan fod y Pasg yn gynnwys eleni, penderfynwyd cynnal dau neu dri o gyfarfodydd ar ddechrau'r tymor nesaf hefyd.

DIOLCH. Dymuna Rhiannon ac Andrew Williams, Gwylfa, Y Waunfawr (gynt o Lanberis), ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur geni Guto Selwyn.

Diolch hefyd am y cymorth a'r gefnogaeth yn ystod y cyfnod y bu Rhiannon yn yr ysbyty. Diolch yn fawr iawn i bawb.

TAFARN BRYNGWNA Caeathro

Croeso mawr i bawb i'r
'Bryngwna'

yng nghanol pentref Caeathro,
lle ceir bwyd cartref ac
amrywiaeth o ddiodydd
traddodiadol, i gyd mewn
awyrgylch cartrefol mewn tafarn
bentref, yng nghwmni Gareth
a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul
a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch (01286) 674568
i gadw bwrdd neu archebu
ymlaen llaw

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

Bysiau o 12 i 53 sedd

Teithiau Lleol a Thramor

Gwaith Contract

Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Pen-blwydd hapus iawn i Ruby Harrison, Bakhita, oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 24 Mawrth, oddi wrth ei holl ffrindiau ym Methel.

EISTEDDFOD. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr Eisteddfod leol yn ddiweddar a chodwyd y canlynol yn swyddogion, sef Llywydd: Glenys Griffiths, Is-lywydd: Rita Williams; Ysgrifennydd Cyffredinol: Rhian Hughes; Is-ysgrifennydd: Enid Huws; Ysgrifennydd Celf: Manon Griffiths; Ysgrifennydd Dawnsio: Sian Harris; Ysgrifennydd Tariannau: Nora Parry; Trysorydd: Nan Jones; Trysorydd Cynorthwyol: Iola Jones.

Penderfynwyd i gynnal Eisteddfod eto eleni, a hynny ar 19 Tachwedd, gyda Noson o ddawnsio ar nos Fawrth, 15fed.

CLWB BRO BETHEL.

Ar wahoddiad y Pennaeth a'r staff, cynhaliwyd y cyfarfod y mis yma yn yr Ysgol Gynradd, gyda nifer o aelodau yn brsenol. A hithau'r Ddydd Gŵyl Dewi bu i holl blant yr ysgol yn eu tro gyflwyno eitemau oedd yn ymwneud â'r Wyl, a chafwyd gwledd o ganu, llefaru a dawnsio.


Yn ogystal â'r cyngerdd roedd y

plant hynaf wedi paratoi te blasus i bawb. Diolchwyd yn gynnes iawn am brynhawn arbennig gan y Prifardd Selwyn Griffiths, ac ar ddiwedd y cyfarfod cyflwynwyd £31 i gronfa'r Ysgol fel gwerthfawrogiad o'r cyfan.

CYSEGR. Bu nifer fawr o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig y Sul diwethaf. Y thema'r oedd hanes y llyfr a newidiodd y byd, sef Beibl William Morgan.

Cychwynwyd y cyflwyniad gyda'r holl blant yn llenwi'r sêd fawr ac yn canu, 'Yn y Beibl Mawr'. Roedd pob dosbarth yn gyfrifol am amrywiol rannau o'r Beibl, a'r plant lleiaf un yn cychwyn gyda stori'r Creu. Yna cafwyd hoff hanesion rhai o blant y dosbarth nesaf, ac yna stori hanes Mari Jones yn mynd i'r Bala i brynu Beibl.

Y bechgyn oedd nesaf a chafwyd ganddynt hanes William Morgan yn cyfieithu'r Beibl. Ym 1978 argraffwyd y Beibl Iliw, a llefarwyd nifer o benillion pwrpasol, gyda'r plant yn dangos lluniau i gydfynd â'r penillion. Braf oedd gweld nifer dda o rieni wedi dod allan i gefnogi'r plant. Diolchwyd i bawb gan Geraint Elis.



Aled Jones ac Aaron Gwyn, y ddau o Fethel, ar eu ffordd i gynrychioli tîm rygbi Ysgolion Eryri dan 11 yn erbyn Ysgolion Cwm Rhymni. Eryri fu'n fuddugol ac maen nhw rwan yn disgwyl clywed pwy fyddan nhw'n chwarae yn y rownd gyn-derfynol.



Y Parti Deulais a gafodd gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd, Eryri.



Manon Elwyn fu'n fuddugol ar yr Unawd Pres.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn Ffestri'r Cysegr dan lywyddiaeth Jenkin Griffiths. Yn dilyn y croeso arferol cyflwynwyd y gŵr gwadd, sef William Vaughan Jones, Pontllyfni. Testun ei sgwrs oedd 'Y Diwydiant Llongau ym Mhorthmadog', a chafwyd ganddo nifer o hanesion diddorol am ei gysylltiad teuluol â'r diwydiant hwnnw. Y cyfarfod nesaf fydd y swper pen tymor, a gofynnir i bawb sydd am ddod gysylltu â Nora Parry neu Sheila Roberts, er mwyn cael dewis allan o'r fwydlen. **PWYLLGOR APEL EISTEDDFOD ERYRI.** Yn y cyfarfod diweddaraf, cafwyd y newyddion calonogol fod targed yr ardal o £3,010 wedi ei groesi.

Ar hyn o bryd, a gweithgareddau yn parhau, mae'r cyfanswm o gwmpas £3,400. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu hymdrechion diflino, gyda'r gobaith y bydd y gefnogaeth a'r brwdfrydedd yn parhau tuag at y gweithgareddau sydd eisioes i ddod.

Ebrill 5ed: Cwis Chwaraeon yn Y Bedol;

Ebrill 22: Noson Hwyl a Chân (£2) yn Y Bedol am 8.30;


Mai 13: Noson Eidalaid (Neuadd Bentref)

Mehefin 22: Cystadleuaeth Pêldroed Hŷn (Cae Top)

Mehefin 24: Noson Lawen (Neuadd Bentref)

Fe fydd mwy o hysbysebu ar gyfer pob digwyddiad yn ymddangos o gwmpas yr ardal. Atgoffodd y cadeirydd pawb i ledaenu'r neges fod tocynnau ar gyfer cyngherddau'r Eisteddfod yn prysur werthu. Gellir eu harchebu o swyddfa'r Eisteddfod ym Mhen Deits, Caernarfon.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Arddangosfa ym Meddygfa Llanrug



Efallai nad yw'n syndod gweld enghreifftiau o waith pwytho mewn meddygfa, ond fel arfer, mae'n cael ei gyfyngu i 'stafell y meddyg'. Nid felly mae hi wedi bod ym Meddygfa Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ers misoedd. Gwelir yma waith pwytho tra'n *disgwyl* gweld y Meddyg neu'r Nyrs.

Yn yr Ystafell Ddisgwyl mae arddangosfa o frodwaith a phwytho cywrain un o gleifion y Feddygfa, sef Jan Sandham o Benisarwaun. Yn enedigol o Heswall, ger Lerpwl, mae Jan wedi ymgartrefu yn yr ardal ers chwarter canrif. Roedd diddordeb ganddi erioed mewn brodwaith ond ers ymuno â'r 'Embroider's Guild' yn yr wythdegau, nid yw wedi edrych yn ôl. Wrth fynychu cyrsiau, cafodd gyfle i ddysgu am gynllunio ac am bwythau a thechnegau newydd. Cwblhaodd gyrsiau brodwaith y 'City and Guild' ac mae wedi arddangos ei gwaith yn lleol ac yn genedlaethol efo'r 'Guild'. Erbyn hyn, mae'n cynnal amrywiaeth o gyrsiau yn lleol ac ar hyd a lled y wlad.

Yn y Feddygfa gwelir enghreifftiau o sawl esiampl o'i gwaith cywrain. Mae ganddi ddiddordeb mawr mewn gwaith canfas a gwaith sy'n ddibynnol ar dechnegau cyfrif. Daw ei syniadau am batrymau o sawl ffynhonnell – fel adeiladwaith, lluniau o'r awyr, patrymau electroneg, ayyb.

Erbyn hyn mae tair arddangosfa o waith cleifion wedi eu gwerthfawrogi yn y Feddygfa – ffotograffiaeth fodern gan y diweddar Jan Barnes, Waunfawr yn 2002, a thirluniau lleol gan Len Williams o'r Felinheli yn 2003. Mae'r ymateb iddynt i gyd gan gleifion Llanrug wedi bod yn ffafriol dros ben. Gobeithir arddangos mwy o grefftwaith lleol yn y Feddygfa yn y dyfodol.

Atodiad BETHEL

CLWB 100 CLWB PÊL-DROED

Enillwyr Chwefror oedd: £100: Howard Jones, Bethel (97);

£50: Dilwyn Hughes, Bethel (51); £25: Julie Williams, Bethel (22)

a Daniel Watson, Bangor (6).

CLWBB 200 Y NEUADD. Enillwyr Rhagfyr 2004 oedd: £50: Rhianwen Gadd, 3 Y Ddôl (50); £25: Enid Williams, Yr Efail (78); £10: Wendy Grail, 19 Y Ddôl.

Enillwyr Rhagfyr: £50: G & M. Griffiths, (Eryri (24); £25: Huw Williams, Cefn Gwyn (102); £10: Enid Christie, 16 Y Ddôl (6).

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 9 Mawrth, dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn y Bistrol, Llanberis, a chafwyd gwledd arbennig iawn. Croesawyd pawb i'r cinio gan y Llywydd, Rhian Hughes, ac estynnwyd croeso arbennig i'r gwesteion, Edward a Gwyneth Morus Jones.

Wedi'r arlwy ardderchog, llongyfarchwyd Meilyr, mab Mair, ar ei lwyddiant yng nghystadlaethau 'Cân i Gymru' ddechrau'r mis, a hefyd Huw, mab Alys, ar ei berfformiad yng nghyngerdd Gŵyl Corawl Cymru Llundain yn Neuadd Albert, Llundain, yn ddiweddar. Roedd Huw yn canu unawd a hefyd yn rhannu llwyfan efo Fflur Wyn gyda'r côr yn gyfeiliant iddynt. Llongyfarchwyd hefyd blant yr Urdd ym Methel ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir a llongyfarchwyd Nora ar ddod yn nain unwaith eto. Derbyniodd y gangen rodd o £10 fan y Cyngorydd Huw Hughes, a diolchwyd iddo am y rhodd.

Gwesteion y noson oedd Gwyneth ac Edward Morus Jones, Llandegfan, a chafwyd amlinelliad difyr drwy gyfrwng cân a cherdd o hanes eu gyrfa a cherrig milltir o bwys yn eu bywydau. Diolchwyd yn swyddogol iddynt ar ran y gangen gan Glenys Griffiths. Enillydd gwobr y dyddiadur oedd Siân Davies ac enillwyr y raffl gan Ceinwen Roberts, Eirlys Williams, Gwyneth Price, Mary Evabns, Eirlys Sharpe, Mair Read a Gwyneth Jones.

ADRAN YR URDD.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ym Mrynrefail ar ddydd Sadwrn, 26 Chwefror. Cafodd y Côr, y Parti

Deulais a Pharti Llefary llid i gyd y wobwr gyntaf. Hefyd Gerallt a Phoebe gyntaf ar yr Ymgom a Manon Elwyn gyntaf ar yr Unawd Pres. Cafodd y Parti Unsain a'r Grŵp Offerynnol yr ail wobwr, a daeth Gerallt a Gethin yn ail ar y Ddeuawd a Gruffydd John yn ail ar yr Unawd Pres a Bronwen yn drydydd. Daeth Gethin yn ail ar yr Unawd Piano a Bronwen yn drydydd. Daeth Parti Llefary blwyddyn 6 ac Ymgom llid a Gethin yn drydydd. Daeth Mari Tachwedd yn drydydd ar y Llefary o 8-10 oed a Lowri Ann yn 3ydd ar yr Unawd dan 12 a'r Unawd Cerdd Dant dan 12 oed.

Yn y Dawnsio Disgo daeth Angylion bach Kelly yn ail yn y Grŵp a daeth Lois Jones yn drydydd. Mae'n amlwg fod y plant a'u hyfforddwyd wedi bod yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf. Maent i'w canmol am eu gwaith caled.

Ar ôl eu llwyddiant mawr yn y Cylch aeth criw ymlaen i gystadlu yn y Sir ym Mangor ar 5 Mawrth. Cafwyd diwrnod hir a blinedig, rhai wedi bod yno i'r rhagbrofion yn y bore. Roedd hi ar ôl 6 y nos ar y partion a'r côr yn cystadlu ond roedd yn werth y disgwyl. Bu'r Côr, y Parti Deulais a'r Parti Llefary yn llwyddiannus a chipio'r wobwr gyntaf. Hefyd Manon Elwyn ar yr Unawd Pres. Daeth Gerallt a Phoebe yn ail ar yr Ymgom a Gethin yn drydydd ar yr Unawd Piano. Ardderchog yn wir.

Mae hen edrych ymlaen am y Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Mai. Diolch i'r holl hyfforddwyd am eu gwaith caled dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r plant yn hynod o ffodus o gael y cyfleoedd hyn. Diolch Anti Glenys, Deilwen, Manon Gwynedd, lola a Ruth.

Bu nifer hefyd yn llwyddiannus yng nghystadlaethau Celf yr Urdd. Daeth sawl gwobr i'r Adran, Lowri Jones: 2il am Ffotograffiaeth bl.2 ac iau; Phoebe Hunter: 1af am waith 3D; Cadi Pritchard: 1af am waith 2D; Georgia: 2il am Addurno Ffabrig; Carwyn: 1af am Brint Lliw; Aaron Gwyn: 2il am Brint Lliw, 1af a 3ydd am waith 3D, 1af am Graffeg Cyfrifiadurol a 1af am gyfres o Ffotograffiaeth.

Cafodd y canlynol lwyddiant yn y Sir- Phoebe 2il am waith 2D; Cadi

3ydd am 2D; Aaron Gwyn 2il am Brint Lliw ac ail am waith 3D, Lois Jones 2il am waith 3D. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch.

Ar ôl prysurdeb y steddffodau cafodd y plant fynd i fwynhau eu hunain yn yr Hwylfan nos Fercher, 9 Mawrth. I ddiweddur tymor prysur cafwyd noson o gemau yn y neuadd ar nos Fercher, 23 Mawrth.

Ar ôl y Pasg bydd aelodau o'r Adran yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth rygbi a phêl-droed a bydd Grŵp Offerynnol yr Adran yn cymryd rhan mewn cyngerdd ar 21 Ebrill yng Nghapel Salem, Caernarfon.

Uwch Adran yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yng nghystadlaethau Celf yr Urdd. Dyfan Coles: 1af ac 2il am Brint Lliw; Mollie D. Edwards: 2il am waith Tecstilau; Robin Llwyd Jones: 1af am gyfres o brintiau du a gwyn a Hanna Gwyn: 1af am Addurno Ffabrig, 1af am waith Tecstilau, 1af am Graffeg Cyfrifiadurol, 3ydd am Brint Lliw a 3ydd am gyfres o luniau lliw a 1af am waith 3D.

Yn y Sir, cafodd Robin gyntaf am gyfres o brintiau du a gwyn a Hanna 1af am aAdurno Ffabrig, gwaith Tecstilau, Graffeg Cyfrifiadurol a gwaith 3D, 2il am Brint Lliw a 3ydd am gyfres o luniau. Bydd gwaith Hanna a Robin yn mynd ymlaen i'w feirniadu yn y Genedlaethol. Pob lwc i chi'ch dau. CYDYMDEIMLO. Wedi gwaeldd hir bu farw Mr Eifion Roberts, 21 Bro Rhos. Estynnir ein cydymdeimlad â Diane, yr hogiau a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

NEWYDDION O'R YSGOL.

Cafwyd priodas a gêm rygbi ryfeddol yn yr ysgol fore ddydd Gwener, 18 Mawrth, gan blant Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. Buont yn brysur yn paratoi cyflwyniad arbennig i Miss Nia Gwawr Jones i ddathlu ei Phriodas ar

19 Mawrth â Mr Gwyn Peredur ab Elwyn. Dymuna pawb bob hapusrwydd iddynt a phob dymuniad da ar eu mis mêl yn Cuba dros wyliau'r Pasg.

Perfformiodd Blynnyddoedd 2 a 6 yn wych eto eleni yn y noson ddawns yn Theatr Gwynedd. Rwy'n siŵr fod y parti wedyn yn yr ysgol wedi gwneud yn iawn am yr holl ymarferiol a fu.

Cydymdeimlwn â Mrs Sian Jones ar golli ei thad, dri mis yn unig wedi colli ei mam. Mae'n meddyliau efo hi a'r teulu.

ROBERTS, EIFION ARVON. Dymuna Dianne Roberts, 21 Bro Rhos, a'i meibion, Clive, Kelvin ac Ian, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar adeg hynod o drist o golli gŵr a thad annwyl a hoffus iawn.

Atgof o'r Sêr

Ar 20 a 21 Ebrill bydd cyfle unigryw i glywed perfformiad o gampwaith Robat Arwyn, 'Atgof o'r Sêr' mewn dau gyngerdd yng Nghapel Salem, Caernarfon. Perfformir y gwaith gan Gôr y Waun, côr cymysg o'r Waunfawr, a'r unawdwyr fydd Siân Gibson ac Iwan Parry.

Bu'r côr yn canolbwyntio ar y gwaith arbennig hwn dros fisoedd y gaeaf, ac y mae'r aelodau bellach yn llawn bwrlwm wrth edrych ymlaen at berfformiad gwaith sydd nid yn unig yn siâlens cerddorol, ond sydd hefyd yn gyfle i godi swm sylweddol o arian i Ty Gobaith. Yn ôl yr arweinyddes, Mrs Gwenda Griffith, 'Mae ymroddiad a ffyddlondeb yr aelodau wedi fy mhlesio'n fawr ac wedi codi'r côr i ddimensiwn uwch.'

Cyfeilyddes y côr yw Mrs Ann Pritchard, ac arweinir y ddau gyngerdd yn Salem gan Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd. Y llywyddion anrhydeddus fydd Dafydd Wigley a Lisabeth Miles. Yn ogystal â'r côr, bydd eitemau gan gorau Ysgol Bontnewydd ac Ysgol y Gelli, ac unawdwyr ac offerynwyr o Ysgol Bethel. Heb os, mae gwledd yn eich disgwyl! Mynnwch docynnau gan aelodau'r côr, neu o'r rhifau isod (oedolion £5.00, plant a myfyrwyr: £3.50).

Pat Parry: 650326

Bethan Iwan: 676004

Rhiannon Roberts: 672215

Gwasanaeth Gwallt Symudol Gwen



Gostyngiad i'r henoed

Ffôn:

07919977592



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?

Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a llorïau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

01286 830 805



Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

am help:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan i Mrs Mair Williams, Elidir View, a Mr Leslie Orritt, Morannedd, ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Maelor, Wrecsam.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

YSGOL CWM Y GLO

Rydym wedi bod yn brysur iawn gyda gweithgareddau'r Urdd y mis yma ac rydym yn hynod o falch o lwyddiant y plant. Daeth y côr yn drydydd yn y Sir, y dawnsio gwerin dan ddeg yn ail yn y Cylch, a'r dawnsio gwerin dan 12 yn gyntaf yn y Sir. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i Sioned, Mared, Lowri, Natasha, Dafydd, Osian, Lloyd a Jordan yn y Genedlaethol draw yng Nghaerdydd fis Mai.

Cawsom lwyddiant gyda'r gwaith Celf a Chrefft hefyd ac mae tri eitem ar ei ffordd i Gaerdydd i gael ei feirniadu. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ddod yn gyntaf yn y Sir - Emma Smith gyda'i gwith gwnio; Danielle Lynton am ei gwaith ffotograffiaeth a Katy Williams, Paddy Griffith ac Emma Smith am eu model 3D.

Cafwyd hwyl iawn yn yr ysgol ar Ddiwrnod Trwynau Coch a chasglwyd £110 at yr achos. Da iawn chi, blant.

Bu Blwyddyn 5 a 6 draw yn

Stiwio Barcud yn recordio WAA/ a chafodd tri o'r ysgol eu dewis i gymryd rhan. Cafodd Lloyd a Cian drochfa yn y slwj, ond llwyddodd Alfie i ennill car rheolaeth-bell.

Bu Blwyddyn 3 a 4 yn Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy, i gael blas ar sut le oedd yr ysgol yn Oes Fictoria. Roeddynt i gyd yn falch o ddod yn ôl i ysgol 2005!

Fel rhan o brosiect gan Gyrra Cymru cynhaliwyd cystadleuaeth K'nex i blant Blwyddyn 4, 5 a 6. Y dasg oedd cynllunio a chreu bygi i deithio ar wyneb y lleuad. Tom Barton ac Osian Davies ddaeth yn gyntaf.

Ar 18 Mawrth cafodd Blwyddyn 6 fynd ar ymweliad i Ysgol Brynrefail i gael blas ar fywyd yn yr 'ysgol fawr'. Roedd pawb wedi mwynhau a diolchwn i staff a disgyblion Ysgol Brynrefail am eu croeso.

Enillwyr y Clwb Cant y mis yma yw Elisabeth Hughes, Jen Roberts ac Alison Jones.

Yn anffodus, rydym wedi cael nifer o achosion yn ddiweddar o bobl ifanc yn dod ar dir yr ysgol (hyd yn oed mynd ar ben y to!) ar gyda'r nos a phenwythnosau.

Os y gwelwch unrhyw un yno pan na ddylent fod, a wnewch chi PLŴS gysylltu â'r heddlu ar 673333 er mwyn cofnodi'r ffaith a cheisio atal damwain. Diolch i chi am eich cydweithrediad.



Dyma lun y grŵp Dawnsio Gwerin dan 12, Ysgol Cwm-y-glo. Daethant yn gyntaf yn y Sir a dymunwn bob lwc iddynt yng Nghaerdydd mis Mai.

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi Clwb Eryri yng Ngwesty Fictoria, Llanberis ar nos Wener, 4 Mawrth. Y gŵr gwadd oedd Ffestin Williams, Penrhyndeudraeth a draddododd sgwrs addas iawn i'r achlysur ar y testun 'Etifeddiaeth'. Soniodd am ei fagwraeth a'r dylanwadau arno ym mro Ffestiniog.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Llywydd, Ralph Jones, a roddodd fraslun difyr o'r tymor a fu, cyn cyflwyno'r siaradwr gwadd. Dymunwyd yn dda i'r Parchedig Deiniol Morgan, a

fydd yn gadael yn fuan i swydd bwysig fel Arweinydd y Gân yng Nghadeirlan Abaty Westminster, Llundain.


Diolchodd Is-Lywydd y Clwb, Dafydd Ellis, i'r siaradwr am rannu ei atgofion ac am ddod i'r adwy ar fyr rybudd.

Bydd swyddogion y Clwb yn cyfarfod Nos Iau, 14 Ebrill, i drefnu rhaglen y tymor nesaf pan fydd y clwb yn dathlu ei hanner canmlwyddiant.

Dydd Sadwrn, Mehefin 25, gwahoddir yr aelodau ar y Wibdaith flynyddol, a drefnir gan Frank Green.



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

Cofio

John Roberts Williams

Cynhelir Cyfarfod Teyrnged i'r diweddar John Roberts Williams yng Nghapel Pencaenewydd, Eifionydd, ar ddydd Sadwrn, 7 Mai am 2.00 o'r gloch.

Y siaradwyr ar wahanol agweddau o'i waith fydd Dr Aled Gruffydd Jones (y cyfraniad i newyddiaduraeth Cymraeg), Dr Gwenno Ffrancon (y cyfraniad i'r ffilm Gymraeg) a Dr Geraint Stanley Jones (y cyfraniad i ddarlledu Cymraeg).

Llywyddir gan Dr Meredydd Evans a bydd John Ogwen a Maureen Rhys yn darllen detholiadau o waith John Roberts Williams.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen, Bodafon
Ceunant (650799)

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Julie a'r teulu, Rhos y Grug, Ceunant, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iawn yn ddiweddar. Dymuna'r teulu ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r gefnogaeth maent wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod anodd yma.

Y CYMRO

Cefnogwch Y Cymro, papur cenedlaethol Cymru ers 1932. Cysylltwch â'ch siop bapur lleol neu ffoniwch Edwina ar (01970) 615000 am fanylion tanysgrifio.

ANTUR WAUNFAWR

GŴYL FAI



Eleni cynhelir

Gŵyl Fai Antur Waunfawr ar ddydd Sadwrn, 30 Ebrill am 1 o'r gloch.

Bydd yno amrywiol stondinau a chrefftwyr yn arddangos eu gwaith, ac adloniant a hwyl i'r holl deulu. Os oes unrhyw fudiad neu gymdeithas leol eisiau cymryd rhan, gellir cysylltu â Dewi Wyn Jones, Rheolwr Safle (01286) 650721.

Ar y diwrnod agorir y Feithrinfa Blanhigion a'r gerddi am y tymor newydd.

Eleni, yn ychwanegol i'r arfer, mae'r gweithwyr wedi meithrin planhigion llysiau yn ogystal â blodau. Gellwch brynu cenin, bresych, letys, nionod, tomatos a broccoli ar gyfer eu plannu.

CHWILOTA

Hela'r Gynffonwen



GYDA'R holl sylw a roddwyd dros y misoedd diwethaf i'r 'ymgyrch' dros ddeddfwriaethu yn erbyn hela'r llwynog â chŵn, ac a gyrhaeddodd benllanw yn ystod y mis diwethaf; diddorol fyddai cael cipolwg yn ôl ar hanes perthynas Dyn â'r llwynog, neu'r cadno, madyn a rhonwyn, a rhoi iddo ei enwau eraill. Mae'n debyg mai'r cofnod cynharaf sydd ar gael o hela'r llwynog â chŵn yw'r un yn llyfr cyfrifon Castell Belvoir am y flwyddyn 1539, ond ni ddaeth hela'r llwynog yn boblogaidd tan ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg a dechrau'r ddeunawfed ganrif, o ganlyniad i ddirywiad ym mhoblogaeth ceirw, a'r awch am gael anifail arall i'w hela am sbort. Yn wir, erbyn canol Oes Fictoria, roedd hela'r llwynog mor boblogaidd ymhlith y byddigion fel bod rhai ciperiaid yn magu llwynogod yn arbennig ar gyfer eu hela, yn union yn yr un modd ac y câi ffesantod a phetris eu magu.

I'r mwyafrif o ffermwyr cyffredin, anifail i'w ddifa oedd y llwynog, ac am flynyddoedd lawer roedd swm o arian yn cael ei dalu gan y plwyfi am ddifa llwynogod. Mae cofnodion am hyn i'w cael dros dri chan mlynedd a hanner yn ôl, a hynny yn ein hardal ni.

Yn Llys y Chwarter Sesiwn yng Nghaernarfon ym mis Awst 1652, aeth Owen Edwards a Thomas Williams, wardeiniaid eglwys Llanrug, ar eu llw i dystio fod '*Foulke Lloyd, Vachwen and William ap Edward, Llwynrolyn, have killed and destroyed seven cubbs and one olde fox during May.*' Ddeufis yn ddiweddarach, ceir cofnod fod wardeiniaid eglwys Llanbeblig a Llanberis yn tystio '*that Thomas Lloyd and Simon Lloyd, Kevn, killed one olde fox at Clegyr, one olde fox at Ceven du and one poulcatte at Cynant.*' (Doedd Waunfawr ddim yn bod fel plwyf yn y cyfnod hwn, ac yr oedd Llanbeblig yn ymestyn i'w derfyn â Betws Garmon).

Roedd taliad yn cael ei wneud am fathau gwahanol o anifeiliaid gwyllt oedd yn debygol o amharu ar gynnyrch y ffermwr. Yn 1649 ceir cofnod fod pum swllt yn cael ei dalu am bob llwynog, a phymtheg ceiniog am bob cath goed, sef y gath wyllt sydd wedi hen ddiplannu o Gymru bellach. Mae'r tâl yn awgrymu nad oedd fawr o gathod gwyllt yn bod yn yr ardal hon bryd hynny 'chwaith. Roedd deuswllt yn cael ei dalu am ddraenog - y pris uchel o bosibl yn deillio o'r gred ei fod yn godro gwartheg, a deuswllt hefyd am ddyfrgi. Roedd gwerth i bysgod bryd hynny, ac yr oedd nifer o goredau

neu griwiau wedi eu codi ar afon Saint - llefydd delfrydol i'r dyfrgi loddesta!

Mân daliadau a roddid am anifeiliaid eraill. Wyth geiniog oedd gwerth carlwm a bronwen, deg ceiniog am ffwlbart a phymtheg ceiniog am gigfran. Roedd y mochyn daear hefyd yn drafferthus, ac yn werth deuswllt i'w ddaliwr. Cyn derbyn tâl, rhaid oedd i'r heliwr gyflwyno pen yr anifail i'r wardeiniaid eglwysig. Does wybod ble roedd rheini yn cael gwared â'r dystiolaeth!

Gwelir felly, fod Thomas Lloyd a Simon Lloyd wedi derbyn deg swllt a deg ceiniog i'w rannu rhyngddynt am ddal y ddau llwynog a'r ffwlbart.

Diddorol nodi hefyd fod rhai o'r enwau am yr anifeiliaid gwyllt hyn wedi eu cadw hyd heddiw ar rai nodweddion o dirwedd y fro. O'r pedwar enw gwahanol am llwynog, hyd y gwn i, dim ond cadno sy'n enw nas cofnodir yn y fro hon.

Roedd gweundir agored yn y Ceunant yn cael ei alw'n Waun Llwynog, a pharhaodd yn enw ar gae ar dir Plas Hafod ar ôl cau'r tir comin. Mae Glyn Rhonwyn yn hen enw, sef dyffryn y llwynog. Afon y Glyn oedd yr hen derfyn rhwng plwyfi Llanrug a Llanberis, a cheir cofnod yn 1565 yn Llys y Chwarter Sesiwn ar i drigolion Llanrug ofalu am drwsio '*Pont Glynrronwen*'. Mae J. Lloyd-Jones yn ei lyfr, *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon*, yn awgrymu mai o'r gair 'madyn' am llwynog y tarddodd enw'r fferm yn Llanddeiniolen, Tyddyn Badyn.

Tybed oes enwau eraill yn y fro yn coffáu'r hen llwynog?

A beth am anifeiliaid gwyllt eraill? Mae digon o wahanol enwau o fewn y fro sy'n ein hatgoffa o gyfnod pan oedd yr anifeiliaid hyn yn gyffredin. Mae'r bele (*pine marten*) yn enw eithaf cyffredin yn ardal y Fachwen, sy'n parhau'n goediog hyd yn oed heddiw. Roedd cynefin y baedd neu'r mochyn gwyllt yn y fro hefyd ar un cyfnod, ac y mae'r enw Cwm dwythwch (Llanberis) a Cil Gwythwch (Llanrug) yn cyfeirio at Gwm ac at Gilfach y mochyn gwyllt. Ac y mae clogwyn ar y Mynyddfawr o'r enw Castell Cidwm, sef yr hen enw ar flaidd. Rhestrwch fwy os gwyddoch am rai.

Teuluoedd Seion

Yn dilyn nodiadau'r mis diwethaf am rai o deuluoedd Seion, Llanddeiniolen, daeth tri ymateb am yr un person, dau ohonynt gan aelodau o'r teulu. Yn gyntaf daeth galwad ffôn oddi wrth Mrs Mair Parry, Llanllyfni.

Cyfeirio roedd at Erasmus Jones a fudodd i'r America. Yn ei meddiant mae nofel a ysgrifennwyd ganddo, ac a gyflwynwyd i Margaret Williams, ei nith, sef nain Mrs Parry. Teitl y nofel yw *Llangobaith: a story of North Wales*, ac y mae'n debyg ei bod wedi ei seilio ar fywyd yn Llanddeiniolen yn y cyfnod cyn i'r awdur ymfudo i'r America.

Daeth galwad ffôn arall oddi wrth Alwyn Jones, Seion, sydd hefyd yn hannu o'r un teulu, yn rhoi'r wybodaeth ychwanegol mai yn siop a phost Seion y mae'n cartrefu, ac i honno gau ers 1969.

Gyda throad y post hefyd, daeth nodiadau am yrfa Erasmus Jones yn yr America oddi wrth W. Arvon Roberts, Pwllheli. Eglurodd fel yr oedd tri o frodyr Cefn Gryddyn, Seion wedi ymfudo i'r America. John, y brawd hynaf oedd y cyntaf. Fe'i dilynwyd gan William ac Erasmus ar 29 o Fai 1832, gan hwylio o Gaernarfon. Yn 1838 ymsefydlodd Erasmus yn Remsen, lle bu'n dilyn ei alwedigaeth fel teiliwr gyda chwmni Edmunds a Grey. Yr oedd erbyn hyn yn dechrau dod i amlygrwydd yn y cylchoedd Cymreig fel areithiwr dirwestol, cerddor a bardd. Yn 1847 cafodd drwydded i bregethu, ac yn 1850 fe'i hordeiniwyd yn flaenor yn Eglwys Fethodistaidd Esgobol Seisnig, Remsen.

Ymwelodd â Chymru yn 1852 a threuliodd ei amser yn teithio mewn gwahanol fannau yn pregethu ac areithio. Wedi dychwelyd i'r America, a phan dorrodd y Rhyfel Cartref yno, fe'i penodwyd yn gaplan ar gatradd o filwyr duon (Catrawd 21). Rhyddhawyd ef gydag anrhydedd o'r fyddin yn Charleston, De Carolina, yn Ebrill 1866 a dychwelodd i'w gylch gweinidogaethu.

Yn 1885, ac yntau bron yn drigain oed, aeth ar daith bregethu i eglwys Cymraeg taleithiau Ohio a Wisconsin. Parhaodd y daith am dri mis, a dywedir iddo bregethu saith gwaith yr wythnos yn ystod y daith honno.

Ysgrifennodd lawer yn Gymraeg a Saesneg. Ymddangosodd dau argraffiad o'i gyfrol gyntaf - *The Captive Youths of Judah* (1856), ac yn Eisteddfod Fawr Utica yn 1870 enillodd am chwedl *The Adopted Son of the Princes*.

Fel y nofel *Llangobaith*, yn Utica hefyd y cyhoeddwyd ei nofel olaf, *Gold, Tinsel and Trash*. Cyhoeddodd hefyd nifer o

ddarlithoedd yn gwrthwynebu caethwasiaeth, ac erthygl ffeithiol ar hanes y Cymry yn America yn rhifyn Mawrth 1876 o'r *Atlantic Monthly*.

Yn ei henaint, pallodd ei olwg a cholodd ei glyw. Symudodd i Utica, Efrog Newydd, ac yno y bu farw ym mis Ionawr 1909.

Gyda diolch i'r tri ohonoch am ymateb mor sydyn ac mor llawn o wybodaeth.

Dynion y Ffordd

Beth amser yn ôl ymddangosodd llun o weithwyr ar Bont Barics, Nantperis. Cafwyd rhai enwau, ond nid y cyfan. Bellach, daeth mwy o wybodaeth gan Tom H. Jones, Rhes y Priordy, Caernarfon. Pan ymddangosodd y llun gwreiddiol, dywedwyd fod y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn dod o ardal Llanberis a Llanrug. Nid yw'n ymddangos bellach fod hynny'n wir. Daw Tom yn wreiddiol o Rosgadfan, a does fawr o syndod felly ei fod yn gallu enwi nifer dda o'r gweithwyr o'r ardal honno!

Ted, Cwm y Glo a Keith o Lanberis yw'r unig ddau 'leol' sy'n cael eu henwi ganddo. Mae'r lleill i gyd o fro 'Lleu', sef Gwilym Hughes, Cae'r Gors, Rhosgadfan; Dafydd Cae Haidd, Rhosgadfan; Bob Davies o'r Fron; Gwyrfaï o Garmel; Robat o Rosgadfan (brawd Thomas Eifion a'r diweddar Wally, yr adeiladwr), a Hugh Hughes, y fforman, o Rostryfan. Mae hefyd yn enwi'r diweddar Twm Prysgol o'r Waunfawr.

Tybed felly a gafwyd enwau'r holl weithwyr sy'n ymddangos yn y llun.

Boddi yn Llyn Peris?

Ganwyd Griffith Griffiths yn Llanrug tua 1845. Yn 1867 priododd ag Ellen Hughes o Gaernarfon, ac yr oeddent yn byw yn Stryd y Castell. Yno y ganwyd eu chwe phlentyn. Ar ddydd Mercher, 27 o Chwefror 1889, diflannodd Griffith Griffiths. Y gred oedd iddo foddi yn Llyn Peris, ond ni ddaethpwyd o hyd i'w gorff. Ni chlywyd dim o'i hanes fyth ar ôl hynny. Bellach, mae un o'i ddisgynyddion yn awyddus i wybod mwy am yr hanes ac i gael gwybodaeth am aelodau eraill o'r teulu. Oes rhywun o'r darllenwyr yn gallu cynnig unrhyw gymorth?

Gyda diolch i bawb am eu hymatebion. Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad am agweddau o hanes bro'r 'Eco' i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon.

(Ffôn: 01286 673515).

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

YSGOL BRYNREFAIL

Gymnasteg



Heledd Tomos, Ashley McGuigan, Stephanie Williams a Sophie Dymore.

Cynhaliwyd Pencampwriaeth Gymnasteg Eryri ar 8 Mawrth yng Nghanolfan Tennis Arfon. Roedd 14 o ysgolion o Wynedd, Môn a Chonwy yn cymryd rhan. Bu nifer o dimau o Ysgol Brynrefail yn cystadlu a daeth

llwyddiant i dim Genod Canolraddol Blwyddyn 8 pan dderbyniasant yr ail wobwr. Y tîm llwyddiannus oedd Heledd Tomos, Ashley McGuigan, Stephanie Williams a Sophie Dymore.

Gweithgareddau Diwrnod y Llyfr

Bu'n ddiwrnod prysur iawn yma ar dydd Iau, 3 Mawrth, gyda nifer fawr o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau.

Cwis Llyfrau Anifeiliaid

Stephanie Lomas o ddosbarth 7E enillodd y cwis yma wrth ddarganfod gwahanol lyfrau am anifeiliaid mewn ffenestri amrywiol ddosbarthiadau o gwmpas yr ysgol.

Penblwyddi ar Ddiwrnod y Llyfr

Cyflwynwyd tocyn llyfr i ddau ddisgybl oedd yn dathlu eu penblwydd ar y diwrnod, sef Kyle Smallwood 8E a Katie Pritchard o 11 T.

Helfa Drysor

Yn ystod y cyfnod cofrestru bu Criw Cynllun Darllen Blwyddyn 7 yn brysur yn cwblhau helfa drysor yn y llyfrgell. Paula Roberts 7N lwyddodd i ddarganfod yr atebion cywir i gyd, gan ennill tocyn llyfr gwerth £5.

Cwis Llyfr ac Athro


Cwis yn gofyn i ddisgyblion efeillio llyfr ac athro arbennig – fedwrch chi, tybed ddarganfod y parau cywir!!! Daniel Ellis 7N lwyddodd i ddyfalu'n gywir.

Enwau'r nofelau

Sbinia
Y Ffenomen Ffrwydro Ffantastig
Y Gadwyn
Beicio yn y Gwaed
Y Trip
Babannod Blawd
Yma o Hyd
Gwersyll ar y Mynydd
Sgorio Bob Tro
Straeon.com
Gawsoch chi bob un?!!!!

Enwau'r athrawon

Mr. Dylan H. Jones
Mr Arfon Evans
Ms Rhian Owen
Mr Berwyn Hughes
Mr Euron Hughes
Mrs Sian Harris
Mr Harri Jonesw
Dr Beverly Jones
Mr Selwyn Allsup
Mr Rob Jones



Daniel Ellis, 7N

Llunio Mat Llygodyn

Daeth criw da o ddisgyblion ynghyd i'r llyfrgell ar amser cinio i lunio mat llygodyn yn cyflwyno gwybodaeth am awdur enwog. Penderfynodd Mr. Peredur Williams o'r Adran Dechnoleg mai gwaith Lowri Davies o 7N oedd yn haeddu'r wobwr gyntaf.

Lowri Davies, 7N.

Traws Gwlad



Ezra Warren: cyntaf yn Arfon ac Eryri; Victoria Taylor: ail yn Arfon a phedwerydd yn Eryri; Gethin Philips: trydydd yn Arfon a chweched yn Eryri.

Yn ddiweddar daeth llwyddiant i ran tri o ddisgyblion yr ysgol yn y gamp o redeg traws gwlad. Rhedodd y tri yn ardderchog yng nghystadleuaeth Arfon yn Nyffryn Nantlle pan ddaeth Ezra Warren yn gyntaf i fechgyn Blwyddyn 7; Victoria Taylor yn ail i ferched Blwyddyn 8 a 9 a Gethin Phillips yn drydydd i fechgyn Blwyddyn 8 a 9.

Bythefnos wedyn aeth y tri ymlaen i gael llwyddiant yng nghystadleuaeth Eryri yn Nolgellau, gydag Ezra unwaith eto yn dod i'r brig, Victoria yn bedwerydd a Gethin yn chweched, a thrwy hynny ennill eu lle ym Mhencampwriaeth Cymru a gynhelir yn Aberhonddu ar 9 Mawrth.

Ymweld ag Ysgol Dolbadarn i ddarllen i Flwyddyn 3 a 4



Y Criw Darllen yn ymweld ag Ysgol Dolbadarn, Llanberis.

Cafodd chwech o ddisgyblion y Cynllun Darllen boreol i Flwyddyn 7 y cyfle i ddarllen stori i rai o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 Ysgol Dolbadarn, Llanberis. Mae Blwyddyn 3 yn mynd i astudio'r nofel *Y Dylluan oedd yn Ofni'r Tywyllwch* yn y dyfodol agos,

felly penderfynwyd y byddai'n dda o beth i ddisgyblion Blwyddyn 7 ddarllen pennod o'r nofel hon i'r plant.

Y disgyblion a fu'n darllen i'r plant cynradd oed Gwyn Jones, Shon Alun Thomas, John Glyn Williams, Menai Rowlands, Gwenno Morris a Sian Jones. Buont yn ymarfer darllen y stori – rhai yn Gymraeg a rhai yn Saesneg cyn y diwrnod mawr.

Ar fore Diwrnod y Llyfr, cychwynnodd 6 o ddisgyblion nerfus iawn i Ysgol Dolbadarn ond diolch i Mr. Rolant Wynne, y prifathro, ac athrawes Blwyddyn 3, Mrs Iona Ceiriog, roedd pawb yn teimlo'n braf ac yn barod i ddarllen i'r plant. Gwrandawodd y disgyblion yn ofalus ar y darlleniadau a mwynhaodd pawb yr achlysur.

Diolch i staff Ysgol Dolbadarn a'r disgyblion am eu croeso.



Eisteddfodau'r Urdd

Bu cryn gystadlu yn ddiweddar mewn amrywiol feysydd yn Eisteddfodau'r Urdd. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu ac yn enwedig y rhai hynny ohonoch sy'n mynd ymlaen yn awr i gystadlu yn y Genedlaethol yng Nghaerdydd fis Mehefin. Dyma hwy:

Isod gwelir rhai o aelodau'r grŵp dawnsio gwerin buddugol rhwng 15 a 19 oed. Daeth ail grŵp yr ysgol yn ail yn y gystadleuaeth hon hefyd!!!

Bydd Band Pres yr ysgol hefyd yn ein cynrychioli, ynghyd ag ensemble hŷn yr ysgol.

Llwyddodd Huw Foulkes i

ennill yr unawd bechgyn rhwng 15-19 oed, ac fe fydd Anest Eifion, o Flwyddyn 11 yn mynd ymlaen yn y gystadleuaeth stepio unigol i ferched rhwng 15-25 oed yn dilyn ei buddugoliaeth hithau.

Yn ogystal, llwyddodd y canlynol i ennill eu lle yn y ddinas fawr ym myd y dawnsio disgo: Grŵp Dawnsio Disgo dan 15 oed - Perlau Brynrefs (iau); Dawnsio Disgo Unigol dan 15 - Lowri Elena Jones (Blwyddyn 9) a Grŵp Dawnsio Disgo 15-19 oed - Perlau Brynrefs (hŷn). Pob lwc i bob un ohonoch yn y ddinas fawr!!!!



Crafwr



(O'r chwith): Fred Tomos, Daniel Elis, Glena Owen a Gwilym Rhys. Mae Marek Williams yn absennol o'r llun.

Aeth criw i Gaerdydd i gymryd rhan yn y rhaglen deledu *Crafwr* yn ddiweddar. Mwynhaodd y disgyblion y gystadleuaeth ac

enillodd Daniel ac Elena gamera digidol. Hefyd, fe drochwyd Gwilym mewn llysnafedd! Da iawn??

Dawnsio Disgo



Perlau Brynrefs, Grŵp 15-19.

Mae Sasha Williams o Flwyddyn 10 wedi bod yn brysur yn dysgu'r disgyblion i ddawnsio disgo eto eleni. Bu dau grŵp yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Sir ac mi fyddant yn cynrychioli Ysgol Brynrefail yng Nghaerdydd fis Mehefin.

Perlau Brynrefs 12-15 oed
Perlau Brynrefs 15-19 oed
Hefyd cafodd Sasha ail yn y gystadleuaeth unigol 15-19.

Bydd Lowri Jones, Blwyddyn 9, a fu'n llwyddiannus yn ei chystadleuaeth dawnsio unigol, hefyd yn mynd i Gaerdydd. Sasha fu'n ei dysgu hithau.



Lowri Jones, Unigol 12-15 oed



Perlau Brynrefs, Grŵp 12-15.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi ffordio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Ymgyrch Livestrong

Diolch i bob un o ddisgyblion yr ysgol a brynodd un o'r brechledi melyn er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ymgyrch fawr y beiciwr enwog Lance Armstrong. Llwyddwyd i godi bron i £100 a braf yw gweld fod ein pobl ifanc yn ysgwyddo cyfrifoldeb a chydwybod ynglŷn â salwch sy'n gallu effeithio ar gymaint.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

LLONGYFARCHIADAU i Anti Carys, y gegin, ar ddod yn nain i Tomos Llŷr. Mae hi a taid wedi gwirioni gyda'u hŵyr bach cyntaf. YR URDD. Wedi cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch aeth nifer o unigolion a phartion o'r ysgol i gynrychioli cylch Arfon yn Eisteddfod Rhanbarth Eryri ym Mangor, a llwyddo yno i gael yr ail a'r drydedd safle yn y cystadlaethau.

Daeth Chloe Roberts, Blwyddyn 4, yn fuddugol yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo unigol dan 12 oed a bydd yn awr yn cynrychioli Rhanbarth Eryri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd mis Mai.

Beirniadwyd gwaith amryw o aelodau'r ysgol yn fuddugol yn y cystadlaethau Celf a Chrefft yng nghylch Arfon ac yn dilyn y beirniadu yn Rhanbarth Eryri bydd gwaith tynnu llun Tomos Tulliver a gwaith argraffu Emma Roberts, y ddau o Flwyddyn 5, yn cael eu beirniadu yn Genedlaethol. Dymunwn bob lwc iddynt.

Llongyfarchiadau i bob un fu'n cystadlu am ddysgu eu gwaith a diolch i'w hyfforddwyr am eu dysgu.

DYDD GŴYL DEWI. I ddathlu dydd Gŵyl Dewi eleni daeth plant yr adran babanod i'r ysgol yn eu gwisg Gymreig draddodiadol a phlant yr adran lau yn eu dillad rygbi a phêl-droed Cymru.

Yn ystod y prynhawn cafwyd cyngerdd yn cynnwys eitemau cystadlaethau yr Urdd a daeth rhieni i ymuno â ni. Gwnaed casgliad ariannol tuag at Ysgol Pendalar a phrynawn dydd lau, 17 Mawrth, aeth cynrychiolwyr o'r Cyngor Ysgol ar ymweliad ag Ysgol Pendalar i gyflwyno'r arian. Diolch unwaith eto i'r rheini a ffrindiau yr ysgol am eu haelioni.

DIWRNOD Y LLYFR. Diddorol iawn oedd gweld y plant a'r athrawon wedi bod yn crafu pen a defnyddio eu dychymyg ac wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr ar gyfer y diwrnod arbennig yma. Roedd rhai yn cario y llyfr gyda hwy.

DIWRNOD TRWYN COCH. Gweddnewidiwyd lliw yr ysgol i goch dydd Gwener, 11 Mawrth, gan fod pob un plentyn ac oedolyn wedi dod yma mewn dillad coch, a'u trwynau, wrth gwrs, gan inni werthu sawl bocs ohonynt yma.

GWAITH THEMA. Fel rhan o'u gwaith thema, aeth disgyblion Blynnyddoedd 1 a 2 i ymweld â Chapel y Rhos ac Eglwys Sant Mihangel. Cafwyd croeso gan y Parchedig Dafydd Hughes a'r Rheithor Deiniol Morgan.

Cafodd y plant weld y tebygrwydd a'r gwahaniaethau sydd rhwng y ddau adeilad – gan sylweddoli mai addoli Duw a lesu Grist y maent yn y ddau sefydliad. Rhannodd Bl 2 eu profiad gyda gweddill disgyblion yr ysgol drwy fideo a sgwrs yn eu gwasanaeth boreol ar 21 Mawrth.

YMWELIAD I LANYSTUMDWY.

Aeth Blwyddyn 5 a 6 i Lanystumdwy ar ymweliad â'r Amgueddfa. Trefnwyd fod y plant yn cael y profiad o fod yn blentyn

mewn ysgol o Oes Fictoria, a phwytho sampler oedd yn rhan o gerdyn Pasg. Ymwelwyd â Bwthyn Highgate, sef cartref David Lloyd George, a chael sgwrs am arferion glanhau a byw yn ystod cyfnod oes Fictoria. Cawsom ddiwrnod difyr a buddiol.

PARATOI AT FIS MEDI. Aeth disgyblion Bl 6 ar ymweliad ac Ysgol Uwchradd Brynrefail er mwyn paratoi at y flwyddyn addysgol Bl. 7. Dymunant ddiolch am y croeso a gawsant yno gan y Prifathro, yr athrawon a'r disgyblion. Roedd yn brofiad gwerthfawr iddynt a phob un wedi ei fwynhau.

Dyma ni yn tynnu at derfyn tymor arall yn yr ysgol a gŵyl y Pasg ar y trothwy. Dymunwn wyliau hapus i bob un ohonoch. Cymerwch ofal ar y ffordd, yn enwedig a'r nosweithiau yn ymestyn ac yn olau i chwi chwarae allan yn hwyrach. Gwelwn chi yn ôl yn yr ysgol ddydd Mawrth, 12 Ebrill, gan fod dydd Llun, 11 Ebrill yn ddiwrnod o hyfforddiant i'r athrawon.

Ar derfyn y Gwasanaeth Boreol fore Llun, 21 Mawrth, cyflwynwyd tystysgrifau llwyddiant mewn hyfforddiant ymarferion croesi'r ffyrdd 'Kurb Craft' i ddisgyblion Blwyddyn Un.

Diolchodd y prifathro, Mr Williams, i Mrs Mai Jones am ddod i hyfforddi'r plant ac i'r rhieni a ddaeth i'w helpu i ofalu amdanynt allan ar y stryd. Wrth longyfarch y plant pwysleisiodd yr angen i bob un gymryd gofal ar y ffordd, yn enwedig gyda gwyliau Gŵyl y Pasg wrth ymyl.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan Gymuned ar nos Fawrth, 8 Mawrth. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Eryl, y Llywydd a chydymdeimlwyd â Julie ar golli ei thad. Bydd Llinos, merch Julie, yn mynd allan i Mecsico i wneud gwaith gwirfoddol mewn ysgol i blant byddar a gofynnwyd i'r aelodau ei noddi. Dymunwyd yn dda i Nia Gwawr, merch Avril, a fydd yn priodi â Gwyn yn y dyfodol agos.

Diolchwyd yn fawr i Ann Lloyd am wneud y trefniadau parthed cynnal caffi yn Eisteddfod yr Urdd, i'r aelodau a fu'n cynorthwyo ac am y cyfraniadau – gwnaed elw sylweddol, sef £463. Cynhelir noson o weithgareddau gan yr Is-bwyllgor Celf a Chrefft yn Neuadd Bethel ar 20 Mai am 7.30. Bydd cystadleuaeth Sioe Llanellwedd yn cael ei beirniadu ar y noson a gofynnwyd am enghreifftiau o waith llaw i'w arddangos.

Y wraig wadd oedd Margaret Davies, gwraig fferm o Ddwyran, Ynys Môn. Margaret fu'n gyfrifol am sefydlu'r busnes Caws Gorau Glas. Adroddodd fel y bu'n dilyn cwrs ar wneud caws yng Ngholeg Menai ac fel yr aeth pethau o nerth i nerth ar ôl hynny. Mae'r cwmni caws wedi ennill lluo o wobrau sy'n dangos fod Margaret yn mynnu safonau uchel. Dangosodd sut y mae'r caws yn cael ei wneud – o drin y llefrith hyd at bacio'r

cosynnau yn ddestlus. Mae ei phlant hefyd wedi ymddiddori yn y busnes gydag un ferch, sydd wedi graddio mewn bancio a chyfrifeg, yn gweithio iddi yn llawn amser. Gorffennwyd y noson gyda phawb yn cael cyfle i flasau dau fath o gaws a gwydraid o win.

Enillwyd y raffl gan Beryl.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Ebrill yng nghwmni Arwel Jones yn 'Teithio Tu Ôl i'r Gân'.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 mis Mawrth oedd: £20: Mrs S. Williams, Glyn Afon; £7: Mrs M. Parry, 4 Gwêl Fynydd; £5: M. Jones, 21 Rhos Rug.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i David a Sarah ar enedigaeth eu mab bach, Oliver, ac wrth gwrs i Taid a Nain, Wyn ac Angela Roberts, Nant y Glyn.

MARWOLAETHAU. Ar 22 Chwefror bu farw Mrs Ellen Mary Thomas o 1 Cefn Elan, Twll Clawdd gynt, yn 93 oed. Mae'r teulu wedi gofalu amdani ers amser ac fe fydd colled fawr iddynt. Cydymdeimlwn yn arw â Maureen, Gloria, John a Linda, yr wyrion, wyresau a'r gor-wyrion.

Ar 21 Chwefror, yn dawel, bu farw Mr Owen Thomas, Llys Dulas, Ffordd yr Orsaf, cyn blismon yn yr ardal yma. Cydymdeimlwn â'r teulu yma hefyd, yn enwedig Mrs Lilian Thomas, ei wraig a'r plant a'u teuluoedd, John, Michael a Carol-Ann.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant hefyd â theulu Mr Neil Brobyn, cyn-berchennog y Siop Sglodion ym Mhontrhythallt. Bu farw ar ôl cyfnod hir o waeledd.

DIOLCHIADAU.

Dymuna Mrs Sarah E. Thomas, Min-y-Rhos, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ac am y cardiau ac anrhegion di-ri a

dderbyniodd ar ddathliad ei phen-blwydd yn gant oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna teulu Mrs Ellen Mary Thomas (Nel Twll Clawdd), 1 Cefn Elan, ddiolch o galon i'w chymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a hen Nain annwyl iawn. Hefyd diolch yn fawr am y rhoddion tuag at Ymchwil y Cancr.

Eto, fe ddymuna Gertie Kirkpatrick, 21 Hafan Elan, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Ann a Gordon Davies, Bryn Moelyn, a'r teulu ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion, cyd-weithwyr a chymdogion am y gefnogaeth a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mark, mab a brawd annwyl. Diolch am y llu cardiau, llythyrau, galwadau ffôn, y blodau a'r rhoddion ac hefyd yr ymweliadau personol a oedd yn gysur mawr idynt.

YSGOL FEITHRIN LLANRUG.

Plant Newydd – os ydy'ch plentyn yn ddwy a hanner cyn 1 Mawrth 2006, yna caiff fynychu'r Ysgol Feithrin. Bydd rhaid cael ffurflen gofrestru gan yr Arweinyddes sydd yn y Caban ar fuarth yr Ysgol Gynradd.

Trwynau Coch – daeth y plant i'r ysgol ddydd Gwener, 11 Mawrth, yn gwisgo trwyn coch er mwyn codi arian tuag at 'Comic Relief'. PRIODASAU. Dydd Sadwrn, 19 Mawrth, priodwyd Nia Gwawr, merch Doug ac Avril Jones, 14 Minffordd â Gwyn ab Elwyn, Bontnewydd. Pob dymuniad da i'r cwpwl sydd wedi ymgartrefu yn

(Parhad ar dudalen 17)

PEN-BLWYDD ARBENNIG IAWN



Mrs Sally Thomas, Min-y-Rhos, Llanrug a'i merch, Rachel, yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed.

Llongyfarchiadau calonnog a phob dymuniad da i Mrs Sally Thomas, Min-y-Rhos, Ffordd yr Orsaf, ar gyrraedd carreg filltir arbennig iawn, ei chanfed pen-blwydd ar y 9fed o Fawrth, 2005.

Fe'i ganwyd a'i magwyd ym Mron Eryri, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, yn blentyn i Griffith E. ac Elizabeth C. Pritchard, ac yn un o wyth o blant.

Ar ôl deng mlynedd o weithio, o 1929 i 1934, fel 'nanny' i blant y Barnwr a Mrs Herbert Rathbone, cyn-faer a Chyfarwyddwr Addysg

Dinas Lerpwl, dychwelodd yn ôl i Lanrug yn weddw ifanc a dod i Min-y-Rhos i fyw. Yna, cyfarfu â'r diweddar Owen William Thomas a bu i'r ddau briodi yn 1938. Yna, 7 mlynedd yn ddiweddarach ganwyd merch iddynt, Rachel.

Cafwyd dathliad gwych yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd ar ddiwrnod ei phen-blwydd. Roedd tros gant o westeion yn cynnwys teulu a ffrindiau yn bresennol a chafwyd diwrnod o ddathlu hapus iawn.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
 CEIR AR GYFER PRIODASAU

ARVONIA

COMPUTERISED

cpt

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvon.co.uk
 Gwefan: www.arvon.co.uk

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel
Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
 – rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

+

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
 Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
 676285 (nos)

Dodrefn Da am Bris Discount
 THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
CWM-Y-GLO
 Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: LLUN – SADWRN 10.30 – 5p.m.

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

Pryd i Bawb
 Bwffe blasus o safon at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tŷon, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
 (01286) 673190



Buddugoliaeth i Gav a Band Llanbabs!

Cafodd Band Deiniolen eu Coroni'n Bencampwyr Ail Adran Bandiau Pres Cymru ddydd Sadwrn diwethaf yn Neuadd Brangwyn, Abertawe, trwy guro 8 band arall o bob cwr o Gymru.

Bydd y band rŵan yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau Prydain yn Harrogate ym mis Medi. Mae'r fuddugoliaeth yma hefyd yn sicrhau fod y band yn derbyn dyrchafiad i'r Adran Gyntaf ym mis Ionawr 2006.

Oherwydd yr ymdrech arwrol o gychwyn yn blygeiniol am 5 y bore o Ddeiniolen, a disgwyl tan 4 y pnawn i gystadlu, fe brofodd y diwrnod yn un melys iawn a'r holl ymdrech yn werth chweil, gan ddod ac un o fuddugoliaethau mwyaf yn hanes y band.

Yn arwain y band ar y diwrnod roedd Gavin Saynor - y chwaraewr tiwba byd-enwog a gychwynnodd chwarae corn ym mand bach Deiniolen cryn dipyn o flynyddoedd yn ôl

bellach, a hynny dan hyfforddiant Hefin Goronwy Jones. Diddorol oedd nodi fod yr hen olwyn wedi troi erbyn hyn, gyda Gavin yn arwain a Hefin yn chwarae rhan y 3ydd Cornet ar y llwyfan!

Roedd y fuddugoliaeth cymaint melysach gan fod y band wedi morio trwy ddyfroedd digon tymhestlog yn ddiweddar. Ar ôl y Nadolig bu rhaid i'r band ymateb i ymadawiad disymwth pedwar aelod, tra bu un arall yn gorwedd yn Uned Gofal Dwys Ysbyty Gwynedd am beth amser.

Yna, Wynne Williams, ein harweinydd arferol, yn gorfod camu'n ôl o'i ddyletswyddau arwain oherwydd salwch. Wrth lwc mae'r claf adref o'r ysbyty erbyn hyn ac yn ei ôl yn chwythu ei hochr hi ar y 'bac rô'.

Un arall o'n haelodau ffyddlon fu'n methu chwythu ers mis Awst y llynedd yw ein 2il Drombôn arferol (a Rheolwr y Band) a hynny oherwydd salwch. Ein dymuniad yw cyflwyno'r fuddugoliaeth hon i

Alan Pritchard - gobeithio y byddi'n gwella'n fuan Pritch - mae pawb yn edrych ymlaen i'th gael yn ôl ar gyfer Harrogate.

Mae'r band yn canolbwyntio rŵan ar ein Cyngerdd Blynnyddol - i'w gynnal yn Ysgol Brynrefail, Llanrug ar 29 Ebrill. Yn cymryd rhan gyda'r band bydd Iwan Williams (cyn-aelod o Fand Deiniolen, sydd bellach yn un o unawdwyr enwocaf y byd bandiau pres. Mae Iwan yn paratoi tuag at lawnsio ei CD gyntaf fel unawdydd yn fuan iawn). Hefyd fe fydd John Eifion Jones, Hogia'r Wyddfa, Annette Bryn Pari a Caryl Hughes yn ymuno â'r band. Fe fydd y cyngerdd yn cychwyn am 7 o'r gloch.

Yna fe fydd y band yn gweithio tuag at gyflawni y gamp driphlyg yn Eisteddfod Genedlaethol y Faenol ym mis Awst.

Am fwy o fanylion a newyddion am Fand Llanbabs, gweler:

<http://www.deiniolenband.org.uk>



GIGS 'STEDDFOD 2005

Cymdeithas yr Iaith
Gymraeg

Oeddech chi'n un o'r rhai lwcus a lwyddodd i gael tocyn i un o gigs diweddar Gruff Rhys ac wedi'ch plesio gymaint nes eich bod ar bigau i'w weld eto? Neu oeddech chi'n hollol siomedig eich bod wedi methu cael tocyn i un o'r gigs i hyrwyddo'r albwm *Yr Atal Genhedlaeth*? Wel, fe gewch un cyfle arall i weld prif ganwr y Super Furry Animals yn perfformio ar ben ei hun gan y gallwn gyhoeddi y bydd yn perfformio mewn gig arbennig iawn yn Eisteddfod Genedlaethol 2005!

Fel arfer, mewn cyd-weithrediad â phobl lleol, bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal gigs yn ystod wythnos yr

Eisteddfod eleni, a hynny yng nghanolfannau gorau yr ardal. Bydd dwy brif ganolfan i'r gigs yr Eisteddfod eleni, sef 'Amser' ym Mangor a 'Cofi Roc' yng Nghaernarfon. Unwaith eto bydd y Gymdeithas yn cynnig arlwy o fandiau ac artistiaid gorau Cymru gyda rhywbeth ar gyfer pob blas cerddorol.

Ymysg y cerddorion fydd yn ymddangos i Gymdeithas yr Iaith, bydd Gruff Rhys yn gwneud perfformiad arbennig iawn. Dywedodd Swyddog Adloniant y Gymdeithas, Owain Schiavone:

'Rydym yn falch iawn o allu cyhoeddi ein bod yn mynd i fod yn defnyddio dwy ganolfan wych yn ardal yr Eisteddfod unwaith eto eleni - mae 'Amser' a 'Cofi Roc' yn ddwy o'r canolfannau gigs gorau yng Ngogledd Cymru. Ar ben hyn rydym wrth ein boddau fod Gruff Rhys yn mynd i fod yn perfformio i ni yn ystod yr wythnos, roedd y gig a wnaeth i'r Gymdeithas yn Solfach adeg

Eisteddfod Tyddewi yn ddigwyddiad gwych a dwi'n gwybod y bydd y gig eleni yn arbennig iawn hefyd... allwn ni ddim disgwyl!!'

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â gigs y Gymdeithas yn yr Eisteddfod neu unrhyw beth arall, ymwelwch â

www.cymdeithas.com
neu ffoniwch Swyddfa'r Gymdeithas: 01970 624 501.

Gallwch hefyd gysylltu â Owain Schiavone (Swyddog Adloniant y Gymdeithas) ar owain@cymdeithas.com neu 07813 050 145.

DIGWYDDIADUR EBRILL

- 1-3: Penwythnos Dathlu agor Galeri; gwybodaeth www.galericaernarfon.com
- 2: Perfformiadau gan ddisgyblion CGWM yn ystod y dydd rhwng 12.00 a 5.00 - Stiwdio 2
- 3: Cyngerdd gan Gerddorfa Siambr Cymru, Galeri 7.30y.h.
- 21: Llwyfan Cerdd - Cyngerdd gan fyfyrwyr iau y Ganolfan (plant o dan 13 oed) yn Stiwdio 2

Rhif ffôn: (01286) 685230
e-bost: cgwm@lineone.net

Canolfan Gerdd
William Mathias

Rhoddion

£21: Mr P. W. Williams, Corby.
£20: Mrs G. M. Beswick, New Brighton.

£16: Di-enw.

£11: J. Evans Hughes, Kirby, Muxlow; Mrs A. Sidebottom, Stockport; Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mr G. Ellis, Llandrindod.

£10: Teulu Catrin Thomas, 12 Tref Eilian, Waunfawr; Rhiannon ac Andrew Williams, Gwylfa, Y Waunfawr; Mrs Sally Thomas, Min-y-Rhos, Ffordd yr Orsaf, Llanrug Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, Cwm-y-glo; Mrs May Jones, Mynydd Llandegai; Mr Emrys Owen, Solihull; Mr Tom Parry, Hagley; Mrs J. Williams, Morfa Bychan.

£6: Mrs Nancy Lovatt, Aberystwyth; Mrs Mary Griffiths, Caerhun; Meurig Owen, Lewisham; Mrs Olive Thomas, Llanddaniel; Mr G. McCarthy, Childwall; Mr Alun Williams, Waunfawr.

£5: Teulu y ddiweddar Gwyneth Clark, Llanberis; Buddug Kyffin a Mair Jones, Llanberis; Eirlys, Ceinwen, Gwenda, Robert ac Eurwyn, Llanberis; Mrs Meryl Green, Anedd Wen, Pontrug; Teulu Mrs Ellen Mary Thomas, 1 Cefn Elan, Llanrug; Mrs Gertie Kirkpatrick, 21 Hafan Elan, Llanrug; Mrs R. E. Griffiths, Treowen; Helen Francis, Higher Kinnerton; Mr a Mrs G. Huws Roberts, Bangor; Miss Elizabeth Williams, Llwyndyrus; Mr Owen Jones, Llangefni.

£3: Mrs Mary Parry, Llanllyfni; Ronnie Williams, Aylestone; Mrs Alona Jones, Prestatyn.

£1: Mrs Enid Jones, Talysarn.

Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

(Parhad o dudalen 14)

Bontnewydd erbyn hyn. Sadwrn Pasg, priodwyd lola Non a Daniel Parry, 2 Ffordd Glanffynnon. Dymuniadau gorau iddynt hwythau. Roedd gwasanaeth priodas y ddau gwpwl yng Nghapel y Rhos, Llanrug. PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i bentrefwyr Llanrug am eu rhoddion hael iawn tuag at yr Apêl. Gwnaed casgliad o dŷ i dŷ a bu'r ymateb yn ardderchog. Mae cyfle o hyd i rai sydd yn dymuno rhoi rhoddion i'w anfon i'r enwau sydd ar y llythyr a adawyd ymhob cartref.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau y Clwb uchod am y tro cyntaf eleni ar 10 Chwefror yng Nghanolfan Fynydd Blue Peris. Y gŵr gwadd oedd Mr Medwyn Hughes o Goleg Menai. Yr oedd yno i sôn am y cyfleusterau sydd ar gael gan y Coleg, mewn cydweithrediad ag 'Age Concern' i roi cyfle i chwech o'r aelodau ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron.

Cafwyd adroddiad am y paratodau a wneir ar gyfer dadorchuddio 'Cofeb i'r Chwarelwyr'. Gwerthfawrogwyd haelioni'r rhai a gyfrannodd eisoes at y paratodau. Dioch yn fawr i chwi.

Penderfynwyd y byddwn yn casglu pum ceiniogau ar gyfer Cronfa'r Ambiwlans Awyr.

Llongyfarchwyd Dennis Glass a Rose Cantrell ar ddathlu eu pen-blwydd. Rhoddwyd y te a gwobrau'r raffl gan Betty a Ray Bower, ac enillwyd hwy gan Alice Griffith, Kathleen Davies, Nellie W. Jones a Betty Ll. Roberts.

Cyfarfu'r Clwb ar 3 Mawrth i fwynhau Cinio Gŵyl Ddewi ac i ddymuno'n dda i Alice Griffith ac

Cafwyd noson arbennig yng Ngwesty Seiont Manor nos Wener, 18 Mawrth. Daeth criw at ei gilydd i gael swper ac i ddawnsio gwerin dan ofal Aderyn Prin, grŵp gwerin adnabyddus iawn. Cafwyd hwyl fawr ar y cyfan. Diolch yn fawr iawn i Aderyn Prin, i Westy Seiont Manor am y bwyd a'r wobr hael iawn at y raffl, i Menna am drefnu ac i bawb am y gefnogaeth.

Mae raffl fawr yn cael ei werthu o'r mis yma ymlaen.

Y SEINDORF. Bydd Seindorf Arian Llanrug yn cynnal eu Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ddydd Llun, 18 Ebrill, am saith yr hwyr yn ystafell ymarfer y band. Croeso i bawb.

Elizabeth Jones, a oedd yn dathlu eu pen-blwydd. Cyflwynwyd tusw o flodau yr un iddynt.

Cafwyd adroddiad o gynhadledd a drefnwyd gan 'Age Concern' i drafod gwahanol agweddau o'r Gwasanaeth Iechyd, gan Nellie Wyn Jones.

Canwyd emyn Cymraeg, dan arweiniad Betty Ll. Roberts, ac i ddiweddu'r pnawn mwynhawyd cacen pen-blwydd gyda'r te.

Enillwyd y raffl oedd Megan Morris, Margaret Faulkener a Betty Roberts. Rhoddwyd y gwobrau gan Betty Ll. Roberts, Betty Roberts a Margaret Faulkener.

EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Unwaith eto diolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd yn ystod y mis gan rai o'r ardal. Gan ein bod angen hel ychwaneg buasem fel pwyllgor yn falch o unrhyw rodd. Gellir anfon eich rhoddion i'r Trysorydd, Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.

Fe fydd ychwaneg o weithgareddau yn cael eu cynnal fel y bydd y tywydd yn cynhesu.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED

Dathlwyd Gŵyl Ddewi ar Fawrth 1af gyda swper yng Ngwesty Dôl Peris, Llanberis.

Roedd cyfarfod y mis ar 17eg yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri. Roedd y noson dan ofal y llywydd, Pat Jones, a oedd wedi trefnu arddangosfa flodau. Enillwyd gwobr y mis sef gosodiad blodau mewn basged gan Megan Owen. Paratowyd lluniaeth gan y llywydd a Carol Houston. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Ebrill 21ain pryd y disgwylir Rol Williams, Waunfawr, i roi sgwrs.

CYDYMDEIMLAD.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Jane Williams, Carreg Siân yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei thad.

BRYSIWCH WELLA. Dymunwn adferiad buan i Dorothy Wager, Tŷ Eryri yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

RYGBI'R CHWE GWLAD. Rydym oll yn uno ym malchder a llawenydd John a Diana McBryde, Bryn Llwyd, wrth weld eu mab, Robin, yn derbyn yr anrhydedd yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd, ddydd Sadwrn Mawrth 19eg fel aelod o dîm Rygbi Cymru wrth iddynt ennill y Gamp Lawn.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD DYDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD Mawrth 4ydd 2005

Cynhaliwyd y Gwasanaeth arbennig hwn am 2 o'r gloch yn y Festri. Paratowyd y gwasanaeth byd-eang hwn eleni gan chworydd Gwlad Pŵyl ar y testun 'Llewyrched ein Goleuni'. Jennie Roberts, Ffrwd Madog fu'n ymgymryd â'r trefniadau. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr arweinydd, Ifanwy Jones, Rhandir, ac ymhlith y chworydd a gymrodd ran roedd Dilys Evans, Gwyneth Evans, Pat Jones, Euronwy Roberts, Eirlys Williams a Lowri Roberts Williams, yn cael eu cynorthwyo gan y brodyr

Richard Wyn Evans, Emyr Williams a Norman Williams. Roedd y bara a'r halen a baratowyd yn symbolau gweledig o letygarwch a chyfeillgarwch nodweddiadol o Wlad Pŵyl. Cyn terfynu, i gyfeiliant cerddorol, cyneuwyd canhwylau'r gynulleidfa o'r Gannwyll Ganolog. Roedd hyn yn symbol o estyn golau i eraill.

PASANT. Cafodd nifer o'r aelodau fwynhad arbennig nos Fawrth a nos Wener, Mawrth 15fed a'r 18fed, pan ymwelsant â Theatr Seilo Caernarfon i weld cynhyrchiad blyneddol Cymdeithas y Gronyn Gwenith. Eleni roedd y portread llwyfan wedi ei seilio ar un o lyfrau y Parch Harri Parri *Etholedig Arglwyddes* oedd yn darlunio 'troedigaeth' Catherine Edwards, Plas Nanhoron, a'i hymateb hi ac eraill pan ymunodd â chynulleidfa yr Annibynwyr yn y Capel Newydd yn Llŷn.

Y GYMDEITHAS. Daeth yn amser unwaith eto i agor tymor newydd y Gymdeithas am 2005. Bydd y cyfarfod cyntaf nos lau Ebrill 14eg am 7 o'r gloch. Bydd y cyfarfod hwn eleni yn cael ei gynnal yn yr Ystafell Gynhadledd yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri pryd y disgwylir y Parch Harri Parri, Caernarfon fel gŵr gwadd. Croesawir yn gynnes iawn aelodau newydd i ymuno yn y cyfarfod a'r rhai fydd i ddilyn yn ystod misoedd yr haf. Gwerthfawrogwn y paratodau a wnaed gan yr ysgrifenyddion, John McBryde a Dwynwen Williams.

OEDFEUON EBRILL.

- 3: Parch Harri Parri, Caernarfon am 5.30
- 10: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10.00
- 17: Mr J.O.Roberts, Bethesda am 5.30
- 24: Parch Eric Jones, Bangor am 5.30

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei y [website: www.a-v-w.co.uk](http://www.a-v-w.co.uk)
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
GARTH MAELOG
51 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: **870840**

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Plant Ysgol Waunfawr yn dathlu Gŵyl Ddewi.

YSGOL WAUNFAWR. Bu'n dymor prysur. Daeth Mr Steve Conway i'r ysgol ar Ionawr 17eg i roi sgwrs i flwyddyn am donfeddi gwahanol ar y radio a gwaith arloesol Marconi. Cawsant weithdy ymarferol i ddilyn a mwynhaodd pawb y weithgaredd. Fe fu'r fan lyfrgell yn dosbarthu i bob dosbarth ar Ionawr yr 20fed.

Ar Ionawr 25ain cawsom sioe bypedau 'Don't touch - tell!' i atgoffa'r plant o beryglon cyffuriau. Yn dilyn y perfformiad daeth ein swyddog cyswllt ysgolion, PC Neil Williams, i'r ysgol i roi sgwrs i flynyddoedd 1-6 ar effeithiau drwg camddefnyddio cyffuriau. Bu'r tair sesiwn yn rhai buddiol iawn i'r plant. Bydd PC Williams yn dychwelyd atom y tymor nesaf i sôn am deithio'n ddiogel i'r ysgol.

Daeth Angahrad Tomos i'r ysgol cyn hanner tymor i sgwrsio gyda Adran y Babanod am ei llyfrau a'i gwaith. Roedd y plant wrth eu boddau yn gweld Strempa a Ceridwen y wrach.

Bu 25 o blant yr Adran Iau yn paratoi'n galed ar gyfer Eisteddfod Gylch yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr iddynt am ddod yn ail yng nghystadleuaeth y côr. Bydd Clwb y Côr yn parhau i ymarfer bob nos Lun ar ôl yr ysgol.

I ddathlu Gŵyl Ddewi roedd holl blant yr ysgol wedi gwisgo mewn gwisg Gymreig neu grys rygbi neu grys pêl-droed Cymru. Yn y bore fe ddaeth ein cyfeillion o'r Antur i'n helpu i blannu 87 o lwyni bychain ar dir yr ysgol, a chawsom wasanaeth arbennig yn y prynhawn.

Bu plant blwyddyn 6 ar ymweliad ag Ysgol Brynrefail ddydd Mawrth y 15 fed, Roedd y pedwar disgybl ar ddeg wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr ac yn edrych ymlaen i'w hail ymweliad yn ystod y tymor nesaf.

Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn stiwdio Barcud yng Nghaernarfon fore Gwener, Mawrth 18 yn recordio 'r rhaglen WAAI, Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu yn hwyrach yn y flwyddyn. Cewch weld Sioned a Cai o flwyddyn 5 yn cael eu taflu i'r gynj! Yr un diwrnod cymerodd blwyddyn 4 ran yng Ngala Hoci dalgylch Syr Hugh Owen.

Bydd yr ysgol yn ailagor ar ddydd Llun Ebrill yr 11eg, Gwyliau

dedwydd i bawb.

EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR. Cynhelir yr eisteddfod ddydd Sadwrn, 7 Mai 2005 yng Nghaernarfon y Waunfawr. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Nia Griffith ar (01286) 650092.

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Chwefror: £40: Jeanette Burdon, 4 Dôl Erddi; £25: Jac Jones, Bod Idris; £10: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Cafwyd pnawn difyr iawn yn y Sefydliad ar 3 Mawrth, pan groesawodd Catherine Jones, y Llywydd, tua 20 o blant yr ysgol, ynghyd â Mrs Gwenan Dafydd a Mrs Gwenda Griffith i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda'r aelodau. Roedd y plant yn llfaru ac yn canu am Dewi Sant. Cafodd yr aelodau wledd wrth wrando arnynt. Diolchodd Pat Parry i'r athrawon ar plant am eu gwaith ardderchog. Yn dilyn y cyfarfod eisteddodd pawb i lawr i de 'sbesial' wedi ei baratoi gan yr aelodau. Enillydd y raffl, wedi ei roi gan Pat, oedd Alice Johnson.

CLWB BOWLIO Mae'r tîm wedi dod yn gyntaf yng Nghynghrair Gwynedd eleni a byddant yn mynd i Lanelwedd i gystadlu yn erbyn timau eraill y mis nesaf.

Mae tair aelod o'r Clwb, sef Pearl, Anne a Nancy, hefyd wedi ennill y gystadleuaeth i driawd. Maent hwy yn mynd i lawr i Landrindod hefyd y mis nesaf. Pob lwc iddynt yno. Fel y gwelwch mae tipyn o weithgarwch yn mynd ymlaen yn y Clwb. Beth am ddod i flasus?

YR URDD. Dyma flwyddyn arall o weithgareddau'r Urdd wedi dod i ben a'r aelodau wedi eu diddanu gyda rhaglen amrywiol. Yn eu plith, ymweld â stiwdio rhaglen deledu Rownd a Rownd; ymwelodd yr heddwdd cymdeithasol am sgwrs anffurfiol, a buont yn nofio yn y pwll ym Mangor. Cafodd y genethod hyn gystadlu yn y gystadleuaeth pêlrwyd, a diolch yn fawr iawn i Mrs Sioned Parry am eu hyfforddi.

Hefyd cafodd y plant gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, sef mewn côr a dau barti canu. Diolch i Mrs Gwenda Griffith a Mrs Gwenan Dafydd am eu dysgu. Roedd adroddiadau'r beirniaid yn dweud fod cystadleuaeth y côr yn agos

iawn - trwch blewyn oedd rhwng côr y Waun â'r buddugol.

Hefyd roedd dau barti Dawnsio disgo ac roedd y genod wrth eu boddau ac yn awyddus iawn i fynd i bob ymafer. Diolch yn fawr i Nia, Helen a Ffion am ddysgu'r grwpiau. Does ond ychydig o amser ers pan oeddynt hwythau yn aelodau o'r Urdd yn y pentref. Gobeithiwn y bydd hyn wedi codi blys ar gystadlu y flwyddyn nesaf!

Gobeithiwn gwrdd unwaith eto ar ôl yr haf.

Cafodd rheini, teuluoedd a ffrindiau'r aelodau gyfle i weld a chlywed y partion a'r côr mewn noson arbennig nos Fercher, 16 Mawrth.

PLYGU'R ECO DIWEDD IONAWR. Diolch i swyddogion Capel y Waun am ganiatau inni eto eleni gael plygu'r Eco yn festri y capel.

Daeth nifer dda i wneud y gwaith a braf oedd cael cwmni rhai newydd yn ogystal â'r hen griw ffyddlon i blygu. Diolch i bawb.

Anfonwn ein cofion at Miss Jean Parc Jones, y swyddog bwndelu, oedd yn methu bod gyda ni ar y noson oherwydd anhwylder iechyd.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Rosalind ac Emrys Owen, Yr Efail, ar ddod yn nain a thaid i wyres fach. Ganwyd Lisa Ellen i Heather a Nigel, chwaer fach i Sion.

Mae Rhiannon ac Andrew Davies, Gwylfa, wedi gwirioni ac yn hapus iawn wedi cael mab bychan, Guto Selwyn, brawd bach i Catrin. Llongyfarchiadau mawr i chi ar ei enedigaeth.

ADREF O'R YSBYTY. Yn ystod y mis bu rhai o'r pentref yn derbyn triniaeth mewn ysbty.

Croesawn Mrs Mandy Williams, 4 Ael y Bryn, adref o Ysbyty Gobowen; Mr Eifion Hughes, Stad Tref Eilian adref o Ysbyty Llandudno a derbyniodd Mrs Eirian Wallobey, 8 Ael y Bryn, driniaeth yn Ysbyty Gwynedd wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich. Dymunwn wellhad buan i chi.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Eirian Jones, Bro Dawel yn ei phrofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.

Yn dawel yn ei chartref, 12 Tref Eilian, ar ddydd ei phen-blwydd yn hanner cant a phedair mlwydd oed, wedi gwaeledd brwnt, bu farw Catrin Thomas. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, Eurwyn, ei meibion, Pryderi ac Owain, ac â'i chwiorydd, Ifanwy a Marilyn, a'r

teulu oll yn eu colled a'u profedigaeth drist.

DIOLCH. Dymuna teulu Catrin Thomas ddatgan eu diolch i bawb a fu o gymorth iddi yn ystod ei gwaeledd. Hefyd eu diolch cywiraf i gyfeillion, cymdogion ac ardalwyr a fu tu hwnt o gefnogol. Gwerthfawrogir y cydymdeimlo tyner a'r holl garedigrwydd a estynnwyd iddynt - buasai Catrin wedi rhyfeddu atoch.

Bydd yr £820 a dderbyniwyd er cof amdani yn cael ei rannu rhwng Uned Cancr Ysbyty Glan Clwyd, Meddygfa Waunfawr a Chyngor yr Henoed. Bu rhain, i Catrin, yn gymorth mewn cyfyngder.

Y GOFEB. Mae rhai o drigolion y pentref mewn penbleth ar ôl gweld planhigion a rithoedd oedd ar dir y gofeb wedi eu chwalu i bob man. Tybed beth sydd wedi digwydd yno?

CÔR Y WAUN. Bu'r côr yn cynnal noson ar gyfer Cymdeithas Capel Peniel, Tremadog, ar nos Iau, 20 Ionawr a chafwyd croeso arbennig. Yn ogystal cafwyd noson hynod o ddifyr yng Nghaernarfon Pentrefelin nos Iau, 24 Chwefror. Gwynn Davies fu'n arwain y ddwy noson yn ei ddull unigryw ei hun - fedra neb arall ddweud y straeon 'na cystall!

Cofiwch fod gan y côr gyngherddau yng Nghapel Salem Caernarfon gyda Sian Wyn Gibson, Iwan Parry a chantorion ifanc yr ardal ar y nosweithiau 20 a 21 o Ebrill, gyda'r elw at Tŷ Gobaith. Mae tocynnau ar gael gan aelodau'r côr.

Os ydych eisiau trefnu noson gyda'r côr cofiwch gysylltu â'r ysgrifennydd, Emyr Roberts ar (01286) 650128.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Aled Taylor oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod olaf tymor y Gymdeithas. Trwy gyfrwng sgwrs a sleidiau ardderchog, rhoddodd Aled fraslun o'i ddyletswyddau yn ei waith fel Warden Parc Cenedlaethol Eryri ac fel un o dîm achub ar y mynydd Llanberis. Mrs Pat Parry ddiolchodd i Aled ar ran yr aelodau am sgwrs hynod o ddiddorol. Caiff yr aelodau edrych ymlaen yn awr at wibdaith y Gymdeithas ym mis Mehefin.

DIOLCH. Dymuna Rhiannon ac Andrew Williams, Gwylfa, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur geni Guto Selwyn.

Diolch hefyd am y cymorth a'r gefnogaeth yn ystod y cyfnod y bu Rhiannon yn yr ysbty. Diolch yn fawr iawn i bawb.

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Llamu, Sboncio, a Giamoca



'Poeriadau'r gog?' Fe'u gwelir ar blanhigion yn flynyddol, a hynny, ran fynychaf, yn ystod mis Ebrill, a'r misoedd a berthyn i dymor yr haf. Credir eu bod yn ymddangos pan ddaw'r gog yn ei hól atom. Amser y gwcw ebe un hen bennill, 'yw Ebrill a Mai, a hanner Mehefin, chwi wyddoch bob rhai.'

Dyfodiad y gog, neu beidio, bydd y 'poer' i'w weld ac nid yr aderyn sy'n gyfrifol amdano, ond yn hytrach bryfyn, sef larfa'r llyffant gwair. Enwau eraill am y pryfyn bychan hwn ydyw *sbuncyn* a *llylleuen sbonc*. A dyna'n gymwys beth a wna, unwaith mae'n ymadael â'r 'poer,' a throï'n oedolyn, - sef llamu o le i le, fel rhyw lyffant/ broga! Pryfyn bychan a ddwedais i ynte; tamaid yn llai nac myfi! Nid yw hwn mwy nac 1.5 cm (0.6 modfedd), ran hyd. Ond o ble daw'r ewyn, y gwynder gludiog, a welir ar blanhigion ac a elwir yn 'boeri'r gog?' Fe'i cynhyrchir o falf arbennig sydd wedi ei lleoli ar du ôl larfa'r llyffant gwair. Bydd larfa'r llyffant gwair yn dal ei hunan ar ei ben i lawr ac yn gollwng hylif o'i chwarennau ac hwnnw, cyn wired â'i fod yn dyfod i gyswllt â'r aer, yn troï'n un ewyn gwyn!

Ond paham creu stff o'r math hwn? A'r ateb yn ddi-flewyn ar dafod ydyw mai amddiffyn y larfa, (sef sbecynnau bychain melynion o ran eu lliwiau sy'n llechu yn yr 'ewyn'), ydyw holl ddiben creu 'poer,' a hyn i gyd er mwyn eu gwarchod rhag pigau'r adar, pawennau a chegau anifeiliaid ac hefyd belydrau tanbaid yr haul.

Gwelais dro'n ôl lythyr mewn cylchgrawn garddio, a'r lythyrwr yn ymosod yn ffaidd ar larfa'r llyffantod gwair, a hynny oherwydd eu bod yn gorchuddio planhigion yn ei ardd Eden hefo'u 'poeriadau'. Y planhigion a 'fygrythid' oedd y *goeden drops* (*ffwsia*), *dagrau Mair*, yr *helygen*, y *tasant*, y *rhosyn*, a'r *rhosmari*. Gofynnid a oedd yr holl 'boer' yn achosi niwed i'r planhigion.

Na! yw'r ateb. Mae'n wir bod y llyffantod gwair yn sugno'r sudd o goesau planhigion, ond nid yw hynny'n niweidio'r planhigion yn ormodol ac fe ellir yn gymharol rhwydd gael gwared â'r 'poeri gog' yn yr ardd drwy eu chwistrellu hefo yr hen Aitsh Dau O, sef dŵr! Yn bersonol mi fyddwn i'n gadael

petha' fel ag y maent, gan fod byd Natur wedi creu popeth er mwyn rhyw amcan neu'i gilydd, ond dyna fo 'dydy pawb heb fod yn gweld 'run fath, a diolch byth am hynny, hynny ydyw, os ydych chi ynte'n rhywbeth ond, larfa llyffant gwair ac yn rhan o 'boeri'r gog!'



Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi

Gofynnwyd i chwi baratoi rhestr o'r gwylanod sy'n byw yma, neu'n dal cyswllt â'r henwlad, a dyma'r enwau, gan gynnwys y gwylanod brodorol a'r ymwelwyr â Chymru:

1. **gwylan ben-ddu** (enwau eraill arni ydyw *gwylan goesgoch*, a *gwylan Llyn Conwy*;
2. **gwylan fechan**;
3. **gwylan gefn-ddu fwyaf** (gelwir hon hefyd yn *wylan ddu a gwyn*, *gwylan gefn-ddu fawr a copsyn y môr*;
4. **gwylan gefn-ddu leiaf**;
5. **gwylan goes-ddu** (sef yr *wylan ben-wen*, *gwylan Gernyw* a *gwylan dribys*;
6. **gwylan y gogledd**;
7. **gwylan gyffredin** (enwau eraill arni ydyw *gwylan y gweunydd* a *gwylan lwyd*);
8. **gwylan Ynys yr Iâ**;
9. **gwylan y penwaig**;
10. **gwylan Sabine**;
11. **gwylan bigfain/ylfain**;
12. **gwylan Môr y Canoldir**;
13. **gwylan Bonaparte** (ceir cofnod am un ar Ynys Enlli yn ystod Tachwedd 6/7, 1984;
14. **gwylan yr Arctig**;
15. **gwylan fodrwybig**;
16. **gwylan goesfelen**.

Cafwyd tri chystadleuydd, a rhaid eu llongyfarch am fynd ati i chwilota mor ddygn ac am osod yr atebion mor daclus ar bapur. Yr enillydd y tro hwn ydyw I.W., a hynny oherwydd fod cryn drefniant a gwybodaeth gyfoethog ynghlwm wrth y gwaith. Llongyfarchiadau I.W. ar ennill *Llyfr Adar*, Iolo Williams, a lofnodwyd ar 26 Ionawr eleni gan yr awdur yng Nghyfarfod Lansio'r gyfrol ym Mhlas Tan y Bwlch.

Danfoni'r gwobrau cysur hefyd at Emma a Ffion Bond, Llanfairfachan a Margaret Wyn Roberts, Caernarfon, gan eu hannog i ddal ati i wyllo adar.

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

BRYSA ADREF. Mae Jean Parc Jones, Cesail y Mynydd, yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Mae hi yn un o'r pobol hynny sydd bob amser ar gael i helpu, does dim yn ormod o drafferth ganddi ac mae'n un o weithwyr dyfal yr Eco ers blynyddoedd lawer.

Dymuna criw'r Eco a dy holl ffrindiau yn yr ardal wellhad llwyr a buan i ti, Jean, gan obeithio dy weld yn ôl adref gyda hyn.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd ein Swper Gŵyl Dewi yma yn Nhŷ Elidir eleni. Daeth cynrychiolydd o 'Cig Oen Cymru' yno i baratoi swper, a chafwyd gwledd arbennig dan ei gofal. Llywyddwyd gan Marian Williams, a hi a ddiolchodd i'r gogyddes ac i'r gweinyddwr am ginio ardderchog.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Ebrill, pan gawn gwmni Dr Helen Roberts, Y Felinheli, a fydd yn sôn am ferched enwog o Gymru.

DIOLCH O GALON am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a gefais ar fy mhen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn i'm holl deulu, ffrindiau a chymdogion am gofio amdanaf. Diolch yn fawr iawn i Joyce, y ferch; ac i Hazel, Betty, Ellen a'r plant, Pen Pwll Coch, Penisarwaun am y *surprise party*. 'It was a treat.'

DYMUNA Idris Wyn Parry ddiolch i bawb am y cardiau, arian a'r holl alwadau ffôn a gafodd ar ôl cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Ac hefyd am y cardiau a'r arian pen-blwydd a gafodd yr un adeg.

DIOLCH. Hoffai Elfed Morgan Morris a Lowri Watcyn Roberts ddiolch o waelod calon i bawb am eu cefnogaeth i'r gân 'Mewn Ffydd' yng nghystadleuaeth Cân i Gymru eleni. Cafwyd ymateb syfrdanol i'r gân a chafwyd dros

ddwy fil o bleidleisiau.

Diolch yn fawr i chi i gyd.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi Sant gyda phryd o fwyd yn y Rheithordy, Llanberis. Cawsom groeso hynod gartrefol gan y Parchedig Deiniol Morgan a'i briod, Helen. Y gŵr gwadd oedd neb llai na thad Deiniol, sef Gerald Morgan. Testun ei sgwrs oedd Ewyllysiau Plwyf Llanddeiniolen o 1755 i 1856. Teuluoedd a Ffermdai sydd yn gyfarwydd i ni hyd heddiw. Aeth y noson yn rhy gyflym o lawer, drwy wrando ar Gerald Morgan yn siarad yn ffraeth a llawn hiwmor. Noson fydd yn aros yn y cof am amser.

Diolchodd Mrs Eurwen Roberts i Deiniol a Helen Morgan am ein croesawu i'w cartref ac i Gerald Morgan am roddi inni hanes hynod teuluoedd Llanddeiniolen.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 4 Ebrill am 7.00 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Mr Cledwyn Jones, Bangor (Triawd y Coleg gynt). Croeso cynnes i bawb.

Mae Ysgol Feithrin Deiniolen angen

CYMHORTHYDD MEITHRIN

i gynorthwyo gyda sesiynau bore a phrynhawn ac i gychwyn cyn gynted â phosib. Bydd angen cymhwyster NVQ2 neu bod yn barod i astudio i gael y cynhwyster yma.

Gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn angenrheidiol.

Cysylltwch â Sian Roberts ar 07969 635944

Dyddiad cau: Dydd Llun, 11 Ebrill

Dathlu Gŵyl Ddewi yn Toronto



Carys (ar y dde) gyda'i ffrindiau, Kathy, Kay, Luois, Susanne, Sian ac Alison.

Cynhaliwyd Cinio arbennig yng Nghanolfan Sheraton, Toronto ar Fawrth 5ed eleni! Y gŵr gwadd oedd yr Arglwydd Roger Roberts, Llandudno.

Ymysg y gwahoddedigion yr oedd Carys, merch Mrs Brenda Williams a'r diweddar William Orwig Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen. Mae Carys yn byw yn Waterdown, Ontario, Canada ers 11 mlynedd bellach gyda'i gŵr, Stuart, a'i phlant, Angharad sy'n 18 oed ac Iwan sy'n ddcg oed.



Carys gyda Roger Roberts.

Yn ôl Carys, cafwyd noson arbennig iawn, a braf oedd cael cyfarfod a sgwrsio â Chymry eraill. Bu Côr Meibion Cymraeg Toronto a Burlington yn eu diddanu.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

PWYSIG: LLYFRGELL DEINIOLLEN

Mae perygl i'r llyfrgell gau os na wneir mwy o ddefnydd ohoni. Erfynnir ar i bawb ddefnyddio'r gwasanaeth neu ei golli.

* * *

Cyfarfu'r Cyngor ar y 1af o Fawrth yng Nghanolfan Penisarwaun. Llywyddwyd gan y Cadeirydd, y Cyngorydd Gwilym Williams.

Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Datgan Buddiant. Huw P Hughes a R. Len Jones, ar faterion cynllunio.

Cofnodion Cyfarfod 1 Chwefror
Y drafodaeth gyda'r Heddlu: dywedodd Len Jones ei bod yn bwysig bod cymaint â phosibl yn ffonio'r Heddlu i adrodd am gamymddwyn. Dywedodd Elspeth Mitcheson mai alcohol a chyffuriau yw'r problemau mwyaf ac ychwanegodd nad yw'r ddogfen a gynhyrchwyd gan Miss Eira Hughes, Cyngor Gwynedd, yr rhoi darlun cyflawn o ddigwyddiadau cefn gwlad.

Dywedodd Huw P. Hughes bod yr Heddlu yn rhoi sylw i gam ddefnydd cyffuriau gan anwybyddu popeth arall. Symud mainc Bethel at Dafarn y Bedol, nid fel â gofnodwyd.

Materion o'r cofnodion

Trafodwyd y ffordd o Gors Bach at Gelli Gyffwrdd. Bu 59,000 o ymwelwyr yno rhwng Mehefin a Medi 2005. Mae'r llefydd pasio a osodwyd yno yn amharu ar rediad dŵr ac yn waith blêr. Penderfynwyd dwyn sylw Gwynedd at y sefyllfa.

Dywedodd Len Jones nad yw Adran Ffyrdd Gwynedd yn ateb llythyrau. Addawodd y Clerc restru'r llythyrau nad ydynt wedi eu hateb i'r Cyngor. Cyfeiriodd Len Jones yn arbennig at lythyr a ddanfonwyd i'r Adran Briffyrdd yn gofyn am ganllawiau cyfrifoldeb am waliau cynnal.

Cyfeiriodd Len Jones at wendid cysylltu rhwng Adranau Cynllunio a Ffyrdd Gwynedd. Caniatwyd tai i fyny ar yr ochrau yn Ninorwig ac o'r herwydd mae dŵr yn llifo i mewn i'r hen dai yn is i lawr. Mae'r un peth yn digwydd yn Fachwen.

Penderfynwyd amlygu hyn i Wynedd.

Rheolwr Rhawd yr Heddlu: Dywedodd Len Jones ei fod wedi siarad â'r Heddwes Pete Willdigg - addawodd roi sylw i Rhiwlas, Penisarwaun a Deiniolen. Mae'r sefyllfa yn Llanberis bellach yw iawn. Dywedwyd bod angen *pledu'r* Adran Ffyrdd â galwadau ffôn ynglŷn â diffygion, nifer y

cwynion sy'n penderfynu blaenoriaethau'r atgyweirio.

Cyfeiriodd Phylis Ellis at gŵyn a ddanfonwyd trwy lythyr o'r Cyngor am dwll yn lôn Winllan, cafodd ei lenwi ar unwaith.

Goleuadau Cyhoeddus: Cyflwynwyd ateb Gwynedd y gellid gosod golau ar lwybr Tan yr Henffordd, Clwt y Bont, pe bai'r Cyngor yn cyfrannu hanner y gost. Penderfynwyd cyfrannu'r £1,100.

Gohebiaethau Eraill

Ysgol Brynrefail. Derbyniwyd llythyr o'r ysgol yn egluro bod Cymdeithas Cyfeillion yr Ysgol wedi codi arian i wella adnoddau Neuadd yr ysgol a'u bod am ffurfio cais i Gyngor y Celfyddydau yn gofyn am £10,000 ar gyfer uwchraddio'r neuadd. Gofynna'r Gymdeithas i'r Cyngor gefnogi'r cais trwy gadarnhau y defnyddir y Neuadd gan fudiadau o'r gymdeithas. Trafodwyd hyn mewn cysylltiad ag anghenion Neuaddau pentrefi'r gymuned ond penderfynwyd cefnogi'r cais.

Priffyrdd. Derbyniwyd gorchymyn Gwahardd Aros Arfaethedig ym Methel.

Trwyddedau Adloniant Cyhoeddus. Derbyniwyd rhestr o drwyddedau i'w hadnewyddu ar y 1af o Ebrill 2005.

Yn y gymuned yma:- Gors Bach ac Ysgol a Chanolfan Gymdeithasol, Penisarwaun.

Y Grŵp Cymunedol. Penderfynwyd ailffurfio'r Grŵp a chyfarfod, pan yn gyfleus â Swyddog Datblygu Gwynedd. Yr aelodau fydd (un o bob Pentref) Elspeth Mitcheson, Phylis Ellis, Len Jones, Gwilym Williams, Philip Jones a Huw P. Hughes. Efallai y gellid rhyddhau Huw P. Hughes gan aelod newydd o Fethel maes o law.

Cynllunio. Cyfeiriodd Gwilym Williams at y cais am ddatblygiad preswyl ar dir Rhiwgoch, Clwt y Bont. Awgrymodd y byddai'r lleoliad yma yn ddelfrydol ar gyfer busnesau/gweithdai bychain. Ychwanegodd bod y Cwmni presennol wedi derbyn grantiau lawer o wahanol ffynonellau ar hyd y blynyddoedd.

Cefnogwyd hyn a phenderfynwyd gwrthynebu'r cais a hysbysu Gwynedd o'r awgrym erbyn eu cyfarfod ar yr 2il o Fawrth (yfory). Ychwanegodd Phylis Ellis - gofyn i Wynedd chwilio am gwsmeriaid masnachol a allai fanteisio ar gyfle fel hyn.

Rhiwlas

14 Caeau Gleision, Rhiwlas. Cais am fynedfa newydd: nid oedd y cynllun yn dangos lleoliad y fynedfa arfaethedig. Penderfynwyd gofyn i Wynedd

am gynllun manwl.

Felin Uchaf, Pentir: Cais i addasu adeiladau allanol yn ddau uned gwyliau ac anecs. Gan bod y fynedfa i lôn brysur ac ar droead, penderfynwyd gofyn i Wynedd faint o ymwelwyr a ddisgwylir i'r datblygiadau newydd.

Hysbysu Gwynedd bod angen y wybodaeth uchod cyn ystyried y ceisiadau.

Ceisiadau a dderbyniwyd

Codi shed amaethyddol tu cefn i Lôn Las, Penisarwun;

Estyniad: Bryn Hywel, Penisarwun;

Mynedfa: 14 Caeau Gleision, Rhiwlas;

Addasu adeilad allanol: Felin Uchaf, Pentir;

Datblygiad Preswyl: Rhiwgoch, Clwt y Bont;

Estyniad: 2 Trem Eilian, Brynrefail;

Mynedfa: Pwll deifio Vivian, Dinorwig;

Newid defnydd i Siop a Caffi: Liptons, Deiniolen;

Addasu adeilad allanol: Parciau Rhôs, Llanddeiniolen.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd

Estyniad: Ty'n Mynydd, Dinorwig;

Estyniad: Cefn Coch, Waen, Rhiwlas;

Adeiladu Tŷ: 16 Tan y Buarth, Bethel;

Cadw adeilad dros dro: (ystafelloedd newid) Cae Pêldroed, Bethel.

Ail osod grisiau concriid: Amgueddfa lechi, Parc Padarn.

Codi shed: Maes yr Ehedydd, Deiniolen.

Cais a wrthodwyd gan Wynedd
Llosgydd: Glandinorwig, Clwt y Bont.

Cae Coch, Brynrefail: Cyflwynwyd ateb Gwynedd yn dweud mai camgymeriad gweinyddol oedd yr hybysebiad yn caniatu'r datblygiad a'u bod yn sefyll at benderfyniad y pwyllgor i'w wrthod.

Llwybrau

Derbyniwyd ateb Gwynedd:

(a) Llwybr 11, Ael y Bryn, Bethel: adnewyddir y cwrbiau.

(b) Llwybr 43, Rhwng y Ddwrydd, Deiniolen: mae gwaith adnewyddu ar y gweill.

(c) Llwybr 139, Post/Stryd Uchaf, Rhiwlas: Trosglwyddwyd y materion gwlliau i sylw'r Adran Ffyrdd.

(ch) Llwybr 5, Tan y Ffordd, Bethel. Gwnaed y gwaith angenrheidiol yma.

Cyfeiriodd Len Jones at gyflwr llwybrau 34/36/37 Hen Lôn, Clwt y Bont - gofyn i Wynedd weithredu eu haddewid (eu llythyr 21/01/05). Hefyd llwybr 106, rhwng Bryn Tirion a Cae Cerrig, Deiniolen, mae angen sylw i'r giâst mochyn ac mae mieri ym mhen ucha'r llwybr - llythyr i Wynedd.

Adroddiadau

Trêth Cyngor Gwynedd 2005/2006

Mynychodd Phylis Ellis ac Elspeth Mitcheson gyfarfod yng Nghaernarfon, ar y 9ed o Chwefror ar ran y Cyngor.

Crynodeb Phylis Ellis o'r drafodaeth:

Codiad yn y drêth.

- (1) Un rheswm - ail fandio - llawer iawn mwy na'r disgwyl yn codi a llawer llai yn gostwng.
- (2) Gostyngiad yn y grant o'r llywodraeth - dim cydnabyddiaeth i ardal wledig.
- (3) Codiad yn y gwariant o 8 milliwn - cytundebau gweithwyr, megis athrawon. Costau gwasanaethau cymdeithasol. Nwyddau yn ddrytach.

B. Fe ellid codi'r trethi 20% ond maent am chwilio am arbedion - wedi llwyddo i ddod i lawr i 8.5%

C. Arbed, trwy brynu gwasanaethau yn lle cyflogi; Contractau â chynghorau eraill; prynu nwyddau; argraffu adroddiadau ar ddwy ochr; hysbysebu; Gwella gwasanaethau; Gwella gwasanaethau i gwsmeriaid ond dim cyflogi; Cyflogi wardeiniaid traffig i gael arian; Masnachu i gael mwy o arian i mewn.

Ch. Rhagolygon yn ddrwg i'r blynyddoedd i ddod.

D. Disgwyl gweld Cynghorau yn cydweithio i arbed arian ac i awgrymu ffyrdd o arbed. Pe bai Gwynedd wedi cael y cyfartaledd cynnydd ar gyfer Cymru, sef 5.1%, byddent wedi derbyn 3.4 milliwn yn fwy o grant. Mae Gwynedd yn derbyn llai o grant oherwydd newid yn y fformiwla dyrannu grant, ym maes henoed yn bennaf.

Seminar Un llais i Gymru

Y materion dan sylw:

Deddf Rhyddid Gwybodaeth Hawl Mynediad Cyffredinol - Ionawr 2005.

Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn priodol a Ffioedd) 2004. Derbyniwyd copïau o'r taflenni yma.

Mynychwyd y Seminar yn yr Wyddgrug ar y 19 Chwefror gan Richard Llwyd Jones a R. Len Jones.

Crynodeb Richard Ll Jones:

Mr Iwan Richards, Prif Weithredwr Un llais i Gymru oedd yn llywyddu, tri Chynghorydd arall oedd yn bresennol. Cynhaliwyd rhaglen lawn er cyn lleied y gynrychiolaeth.

Newyddion cyffredinol: £100,000 wedi cyrraedd o'r Cynulliad. Bydd hyn yn galluogi Un Llais i Gymru i ryddhau gwybodaeth/ cefnogaeth

gyfreithiol/sefydlu a datblygu safle Wê.

RHAN 1

A. Sefydlu'r Ddeddf

Bwriad y llywodraeth i ryddhau gwybodaeth. Ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gyrraedd at wybodaeth.

Y bwriad oedd i'r strwythr fod mewn lle erbyn Ionawr y laf 2005.

Bwriad i bob Cyngor sefydlu CYNLLUN CYHOEDDU.

Bydd CYNLLUN MODEL ar gael gan U L I G. Gellir cael copi.

Y modd yw canolbwyntio ar:

- Pa wybodaeth y dylid ei gadw/rhyddhau.

- Sut i ryddhau y wybodaeth.

- Pa gost.

Rhaid i unrhyw gais fod yn ysgrifenedig / e bôst / ffacs.

- Ni ellir derbyn unrhyw gais llafar.

Rhaid i'r Cyngor ymateb o fewn 20 niwrnod wedi derbyn cais i ymateb.

Mewn unrhyw fater o amhwysedd mae **Comisiynydd Gwybodaeth** (Ann Jones). Mae'r swydd yma yn annibynnol o'r **Ombwdsman Llywodraeth Leol**.

B. Ymateb i Geisiadau: Gweler y daflen

C. Eithriadau: Gweler y daflen.

- Os oes cost, gellir dal y wybodaeth yn ôl hyd nes y telir y gost briodol.

Ch. Gwrthod Cais: gweler y daflen.

- 6: 3 Rhaid rhoi rheswm os penderfynir gwrthod rhyddhau gwybodaeth.

- 6: 4 Os yw rhywun yn ailadrodd neu yn ailofyn yn barhaol, gall hyn fod yn rheswm i wrthod cais. (rhywun yn fwriadol creu cynnen).

RHAN 2

Rheoliadau Sefydlog

Os yw'r gost yn fwy na £450 does dim rheidrwydd i ryddhau y wybodaeth.

Yn yr achos yma y gost yw'r rheswm dros wrthod.

Rhaid talu ffioedd costau.

Llungopio, postio, dadansoddi gwybodaeth. Cyflwyno anfoneb. Os na thalir o fewn 3mis ni ryddheir y wybodaeth.

Trafod: beth os yw rhywun angen gwybodaeth ond nid yn gallu fforddio'r ffi?

Awgrym bod y Cyngor yn gosod 'cap'. Rhywbeth o dan swm a benodir gan y Cyngor yn cael ei ryddhau am ddim.



Ar Ben Arall y Lein

Dyma ni ar ddechrau tymor newydd unwaith eto, faint fydd allan ar yr afon ar y diwrnod cyntaf 'sgwn i. Os bydd y tywydd fel heddiw, sef cawodydd o eira gyda rhagolygon am iddi waethygu dros y dyddiau nesaf, yna ychydig iawn fydd allan. Ond gwn am rywrai y bydd yn rhaid iddynt wlychu'r bluen ar y diwrnod cyntaf, doed a ddel, neu ni fydd y tymor yn gyflawn, beth bynnag arall ddaw i'w basged dros weddill y flwyddyn.

Da o beth yw bod rhai yn ei chael yn amhosib i gadw o'r afon yn ystod y misoedd cacedig, a'r gaeaf yma maent wedi cyflawni gwaith ardderchog yn tacluso'r glannau. Mae'r Seiont, o Bont Cwaria, wedicael ei hadfywio'n llwyr. Nid wy'n cofio graen mor dda ar y lle yn ystod y chwarter canrif diwethaf, - diolch o galon i Clifford a'i griw bach iawn a fu wrthi'n ddiwyd. Hefyd rwy'n ymestyn yr un diolch i Carl a'i griw. Roedd tipyn mwy wrthi yn y fan yma, sef yn agor yr afon o Llyn Garnage hyd at Ysbyty Eryri. Rwy'n edrych ymlaen i gael taflu lein ar y 3ydd yn y lleoliadau yma.

Yn ystod Ebrill 2004 roeddwn yn ffodus dros ben i fod ymysg aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar faterion yn ymwneud â Physgodfeydd, Ecoleg a Hamdden, gafodd ymweld ag Ysgol Gynradd Ynys Hir, sydd bron ar lannau afon Tâf Fechan yn y Rhondda. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi rhoi tanc gyda wyau eog ynddo i'r ysgol, fel rhan o gynllun i godi ymwybyddiaeth a diddordeb mewn pysgota a byd natur. Dros wythnosau roedd y plant wedi gwarchod a glanhau'r wyau a chadw cofnod o sut oedd pethau'n datblygu. Ar ôl deori, a'r eog bychain wedi cyrraedd rhyw ddau fis oed, daeth yn amser eu rhyddhau i'r afon, a dyna ble'r aethom i weld cau cylch y fenter.

Roedd yn hollol amlwg, o weld brwdfrydedd y plant, eu bod wedi llwyr ymroddi eu hunain i'r fenter, a thrwy sgwrsio ag aelod o staff yr ysgol, yr oedd yn ddigon eglur eu bod

wedi cwestiynu pa fudd a fuasai'r disgyblion yn ei gael o'r prosiect. Roedd eu pryderon wedi eu chwalu'n llwyr, gan fod diddordeb ac ymroddiad y plant a'r staff wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae'r cynllun yma, erbyn 2005, yn cael ei changu i'r rhan fwyaf o ysgolion y cymoedd.

Ar ôl cryn bwysio, fe gytunodd yr Asiantaeth, drwy ei swyddfeydd ym Mangor, i leoli tanc yn Ysgol Gynradd Llanberis. Diolch i Dr Robin Parry am drefnu gyda'r Asiantaeth, a hefyd i staff yr ysgol am fod mor frwdfrydig i fod yn rhan o'r fenter. Mae lluniau ar gael, ond bydd yn rhaid disgwyl tan y rhifyn nesaf, gan nad ydi pethau technegol, fel meddalwedd digidol, ddim yn cydymod â fy nghyfrifiadur i. Ymddiheuro i bawb felly.

Mae cryn bryder yn cael ei fynegi, nid yn unig yma yng Nghymru, ond hefyd yn ne Lloegr, Ffrainc, Sbaen a'r Almaen, oherwydd y gorbysgota masnachol sy'n digwydd gyda rhwydi drifft oddi ar arfordir gorllewin Iwerddon. Mae'r rhwydi yma yn dal, ar amcan, dros 500,000 o eogiad mewn rhyw chwe wythnos o bysgota. Mae cryn bwysau ar lywodraeth y Weriniaeth i ddod â'r ymarferiad yma i ben, ac o'r diwedd mae'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi ei ysgwydd tu ôl i'r fenter. Sgwn i a wnaiff Iwerddon weithredu? Os bydd unrhyw arwydd nad ydynt am wrando yna fe fydd rhai o'r Grantiau'n cael eu hatal. Cawn weld.

Os am gael gweld sut mae'r dull yma o bysgota yn amharu ar ein hafonydd ni yng Nghymru, bydd o werth dod i westy'r **Seiont Manor**, Llanrug am 7.30 nos Lun, 11 Ebrill 05, i wrando ar gyflwyniad Niall Greene o Iwerddon, aelod o'r ymgyrch 'Stop Drift Nets Now'. Nid oes tâl mynediad, ond buaswn yn ddiolchgar pe baech yn fy ffonio ar (01248) 670 666 neu drwy gysylltu ar yr e-bost huw.hughes@lineone.net gan ein bod yn gyfyngedig i 80 o wrandawyr, ac mae'r seddi'n llenwi'n gyflym.

HUW PRICE HUGHES

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

YSBYTY PEN CEFN. Ychydig o fisoedd yn ôl, roedd llun ar waelod tudalen 4 *Eco'r Wyddfa* wedi'i dynnu y tu allan i aeilad ac yn dangos merched mewn gwisgoedd gwyn. Ym marn Aled Jones, Bryn y Gof, hen ysbyty y Frech Wen ym Mhen Cefn, rhwng Caeathro a'r Waunfawr, oedd yr aeilad, a'r merched oedd y nyrsys.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas y Cae Chwarae ar gyfer mis C hwefror oedd:

£40: (18) Tim Lloyd, Ysgubor Newydd; £25: (01) Dafydd Iwan, Carrog; £15: (51) Dafydd Roberts, 5 Brynteg; £5: (102) Llio Jones, Glanrafon.

Enillwyr Tynfa mis Mawrth oedd: £40: (35) Norman Hughes, Llyn Gele; £25: (107) Keith Jones, Bodawel; £15: (53) Sharon Thomas, 4 Bryn y Gof; £5: (79) Buddug Jones, Garreg Lwyd.

BAW CŴN. Er mwyn hysbysu perchnogion cŵn o'u cyfrifoldebau yn ôl cyfraith gwlad, rhoddwyd taflenni prwpasol ar hysbysfwrdd y pentref.

AMSERLEN BWS NEWYDD. Ers dydd Sul, 20 Mawrth, mae'r gwasanaethau bws trwy Gaeathro wedi rhedeg i amserlen yr haf. Un syrpreis yw darparu'r un gwasanaeth ar ddydd Sul ac ar weddill yr wythnos. A fydd digon o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth er mwyn ei gadw am y flwyddyn? Mae'r amserlen newydd i'w gweld ar leches teithwyr bws y pentref. Gellir codi copi o'r amserlen o'r Ganolfan Groeso ger Castell Caernarfon. **LLONGYFARCHIADAU.** Yn ddiweddaf bu dathliadau yn Nhai

Glangwna gan fod Sharon Bullock wedi cael parti pen-blwydd yn 40 oed.

PACIO YN MORRISONS. Diolch i'r gwirfoddolwyr, a gasglodd £600 o fân roddion, trwy bacio negeseuon siopwyr yn archfarchnad Safeway / Morrison yng Nghaernarfon. Roedd nifer o roddion hael gan gyn-breswylwyr y pentref. Cyfraniad derbyniol tuag at yr ymdrechion codi arian i adalu £3,000 yn 2005 ar gostau adnewyddu'r Ganolfan.

NOSON CAWL AC ADLONIAINT. Cafwyd noson llwyddiannus i ddatlu Gŵyl Dewi Sant yng Nghanolfan y Capel yng nghwmni John Ogwen a Maureen Rhys. Roedd blas arbennig ar y Lob Scows! Cafwyd elw o £290 tuag at leihau dyled y Ganolfan.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn y Ganolfan ar 16 Mawrth. Roedd y Cyng Clive James yn bresennol ac roedd ymddiheuriad gan y Cyng Vera Roberts. Adroddwyd fod gwrych 1 Bryn y Gof wedi ei dorri ond dim cynnydd efo'r eitemau eraill. Yn wir, bu dau achos o dipio yn slei tu hwnt i'r arwydd 30mya i gyfeiriad Pontrug.

Ar gais y Cyngor lechyd Cymunedol gofynnir i drigolion sy'n anhapus efo'r gyfundrefn feddygol y tu allan i oriau, gysylltu â'r cyngherwyr lleol. **GWASANAETHAU'R CAPEL.** Disgwylir y canlynol yn ystod mis Ebrill:

3: 10.00 Paroh Gwyn Eryl;
10: 11.00 Ysgol Sul
17: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Paroh Ronald Williams
24: 11.00 Ysgol Sul.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



CARPEDI GERAIN T OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWGH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cofnodion cyfarfod nos Iau,
Mawrth 17eg, 2005.

Presennol ac
Ymddiheuriadau

Ward Padarn: Emlyn Baylis,
Olwen Gwilym, Derek Jones, Ken
Jones (Blaen y Ddôl), Fred Owen,
Douglas Pritchard, Helen Sharp
(Cadeirydd), Carys Thomas,
Trystan Thomas. Pawb yn
bresennol.

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod
a gynhaliwyd nos Iau, Chwefror
17eg, 2005 fel rhai cywir, ond gydag
un eithriad. FO ac nid KJ oedd
wedi cynnig y taliadau o dan y
Gronfa Cymorthdaliadau Bychan.
Cynnig ac eilio - FO/DP.

Datgan Buddiant

Ymataliodd HS rhag trafod un cais
cynllunio Cais CO5A/0098/ 15/LL
a oedd yn ymwneud â'i chymydog.

Aelod Newydd

Cynigiwyd enw Raymond Jones i'w
gyfethol yn aelod o'r Cyngor yn lle
Wendy Hughes, a oedd wedi
ymddiswyddo. Roedd pawb yn
unfrydol. Cynnig ac eilio - KJ/DP

Materion yn Codi o'r Cofnodion

• *Cae Chwarae 'Landing', Glan Llyn
Padarn:*

Adroddwyd fod llythyr wedi ei
dderbyn oddi wrth Gyngor
Gwynedd (CG) yn gofyn i'r Cyngor
Cymuned (CC) gymryd cyfrifoldeb
am y cae chwarae yma. Yn ôl y
llythyr doedd dim modd i GG
gynnig grant i Bartneriaeth
Llanberis i wella'r cae chwarae
onibai fod cyfrifoldeb am y cae am
y 15 i 20 mlynedd nesaf yn cael ei
drosglwyddo i'r CC. Byddai hynny
yn golygu cynnal a chadw ac
yswiro'r cae ac fe allai hynny olygu
cryn gost. Eglurodd y Clerc ei fod
o'r farn fod CG yn trosglwyddo'r
cyfrifoldeb a'r gost gan ychwanegu
at faich ariannol y CC, a fyddai yn
ei dro yn cael ei drosglwyddo i'r
trethdalwyr. Fyddai'r cyfraniad i
dreth Gwynedd ddim ceiniog yn
llai.

Holwyd a fyddai'r Cyngor Sir yn
cytuno ar brydles fyrrach, dyweder
5 mlynedd, yn trefnu'r yswiriant a'r
CC yn ei dalu, ac oni ellid cael Parc
Padarn i dorri'r glaswellt? Er cystal
y cynnig i adnewyddu'r cae
chwarae roedd ymrwymiad o hyd
at 20 mlynedd yn un yr oedd y CC

yn gyndyn o'i gymryd ar hyn o
bryd. Roedd angen llawer mwy o
drafod.

• *Llwybr Treftadaeth:*

Adroddwyd fod y gwaith ar y gweill
a'r cytundeb ar fin ei arwyddo gyda
chwmmi cymharol leol i wneud y
gwaith dehongli. Yn unol â
phenderfyniad cynharach i
gyfrannu yn ariannol tuag at gost y
llwybr, cytunwyd i roi £1000 tuag
at gost y cynllun cyfan sy'n werth
dros ddeng mil ar hugain.

• *Cofio H. R. Jones*

Ysgrifennwyd at Guradur yr
Amgueddfa Lechi, ac mae'r Clerc
wedi cael gair pellach a'r Dr
Dafydd Roberts, sydd i drafod y
mater â'i gydweithwyr yng
Nghaerdydd yn Amgueddfeydd ac
Oriela Cenedlaethol Cymru.

• *Gefeillio*

Mewn cyfarfod diweddar o'r
Pwyllgor Gefeillio cafwyd
adroddiad fod cost arwyddion
gefeillio newydd ar gyfer Llanberis
yn £2800 ac er fod gobaith am
gymorth roedd y gost yn sylweddol
fwy nag unrhyw gymorth
disgwyliedig. Penderfynwyd
cyfrannu £1000 tuag at y gost yma.
Cynnig ac eilio - CT/EB

• *Yr Heddlu:0*

Er iddo gael gwahoddiad fe
benderfynodd yr heddwll Willdig
beidio dod i'r cyfarfod am nad oedd
ganddo wybodaeth gyflawn am y
camerâu CCTV yr oedd yn
gobeithio gweld y pentref yn eu
prynu. Roedd KJ a DJ wedi
cyfarfod yr heddwll yn ddiweddar
gyda nifer o bobl eraill i weld rhai
o'r camerâu yn gweithio. Byddai
angen sefydlu grŵp cymunedol i
brynu a gweithredu'r camerâu a
chriw o wirfoddolwyr i gadw golwg
ar y pentref. Cafwyd argraff y
byddai'r cyfan yn ddrud ac y
byddai'n anodd cael gwirfoddolwyr
i wyllo'r camerâu wedi nos er
mwyn atal fandaliaeth. Bydd
gwahoddiad pellach yn mynd i'r
heddlu i ddod i gyfarfod mis Ebrill.

CYNLLUNIO:

• CO5A/0098/15/LL 'Estyniad' i
29 Maes Padarn, Llanberis.
LL55 4TD.

Cafwyd diwygiad i'r cais yma,
gan ychwanegu lle i barcio 4 car
o flaen yr eiddo. Roedd 'na gryn
bryder ynglŷn â maint yr

estyniad. Roedd pryder hefyd fod
y maint yn mynd i newid
cymeriad y stad a gofynnwyd a
fyddai'r ychwanegiad yn
ymyrryd â mwynderau'r
cymdogion, yn enwedig rŵan y
maes parcio i 4 car o flaen y tŷ.
Penderfynwyd anfon at Adran
Gynllunio CG i fynegi pryderon
y mwyafrif llethol o'r
cynghorwyr. [Ni chymerodd HS
ran yn y drafodaeth]

• CO5A/0130/15/AM 'Adeiladu 2
Dŷ a newidiadau i'r fynedfa', Tir
tu ôl i Siop Joc Brown, Stryd yr
Wyddfa, Llanberis - dim
gwrthwynebiad.

• NP3/15/11B 'Creu cyfnewidfa i
fysus cyhoeddus', Maes Parcio
Awdurdod Parc Cenedlaethol
Eryri, Nantperis. Gweld yr holl
waith yn ddiangen, ond dim
gwrthwynebiad ffurfiol.

• Adroddwyd hefyd fod rhai o
gilfannau'r ffordd ym Mwlch
Llanberis i'w gwella, a waliau i'w
hailgodi. Croesawyd hyn yn fawr,
a gobeithir y bydd cyfyngu ar y
parcio gan fod rhai o'r cilfannau
yma yn fwy o feysydd parcio am
y dydd na dim arall. Teimlir y
dylen nhw fod y fannau parcio
am ysbaid, ac nid cyfnodau hir.
Anfon gair i'r perwyl at swyddog
Goriad Gwyrdd Eryri.
Cynnig ac eilio - KJ/TT

Wedi ei Ganiatáu

• CO5A/0033/15/LL 'Adeiladu
modurdy a gweithdy', Dolafon,
Stryd Fawr. Llanberis

Wedi ei Wrthod

• NP3/15/124F 'Newid defnydd o
goedwig masnachol i safle
carafanau teithiol a champio'
(cais diwygiedig), Coed Victoria,
Llanberis. Gwrthodwyd y cais
yma gan Awdurdod PCE ar sail y
byddai cwympo coed a symud
pridd yn andwyol i amgylchedd
gwledol a naturiol yr ardal, a
byddai eu cuddio'n barhaus o

olwg y cyhoedd yn anodd. Roedd
y cynnig yn groes i Bolisi TW7
Cynllun Lleol Eryri. Roedd y CC
wedi gwrthwynebu'r cais ar y sail
yma ac eraill.

GOHEBIAETH:

• *Rhwydwaith Beicio Peris*

Llythyr yn gofyn am
gynrychiolydd. Etholwyd DP.

Nodwyd hefyd fod angen
cefnogaeth y CC i gael ffens (*barrier*)
i atal beicwyr rhag mynd i'r ffordd
fawr ger mynedfa Llanberis o ochr
Caernarfon. Yn ôl Dafydd
Whiteside Thomas bu ond y dim i
ddau fachgen ar feiciau gael eu taro
gan geir yn y fan yma yn
ddiweddar.

• *Cist Gwynedd*

Derbyniwyd llythyr yn nodi fod
arian ar gael ar gyfer cynlluniau
lleol, a ffurflen. Credir y gellid
gwneud cais am gymorth gyda'r
Gefeillio. Bydd CT yn llenwi'r
ffurflenni.

Unrhyw Fater Arall

• Adroddwyd fod angen cyfarfod
buan o is bwyllgor y Fynwent i
drafod y drefn gladdu er mwyn
sicrhau fod y tir yn cael ei lawm
ddefnyddio.

• Cynigiwyd fod clwydi'r Fynwent
angen paent. Clerc i drefnu.

• Blerwch o gwmpas Siop Chips
Snowdon Valley. Adrodd i
Gyngor Gwynedd.

• Adroddwyd gan EB fod Cwmni
Adwy i dwtio'r tir ger y Bont
dros Afon Hwch - da iawn.

• Mae ceir yn dal i anwybyddu'r
arwyddion 'dim mynediad' yn
Maes Padarn, gan beryglu
bywydau.

• Roedd archwiliad allanol y
Cyngor am flyddyn arall wedi
ei gwblhau gan gwmni o Gaer,
Cwmni UHY Hacker Young.

Diolchwyd i'r Clerc am ei
waith yn cadw'r cyfrifon mewn
trefn.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob
math o logi preifat - nosweithiau
allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau
rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC WINDOWS**

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Dylan Griffith

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA


Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2005

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 3 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig i'r papurau bro i gyd drwy Gymru. Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £30 i'r enillydd, yn ogystal â £150 i'r papur bro fydd yn ysgogi'r ymateb gorau. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd.



Anfonwch y croesair at:
Croesair Papur Bro,
Cyngor Llyfrau Cymru,
Castell Brychan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 2JB,
erbyn 15 Ebrill 2005.
Gofalwch nodi eich
enw a'ch cyfeiriad ac
enw'ch papur bro lleol.



Cofiwch; un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

AR DRAWS

- 1 Gair arall am lyfrau (8)
- 5 Enw cyntaf awdures *Pwtyn ar Goll* (4)
- 8 Gweler 18 (5)
- 9 Gweler 7 i lawr (2, 4)
- 12 ----- *Rafins*, nofel gyfoes gan Dafydd Meirion (5)
- 14 Awdur a fu farw dair blynedd cyn cyhoeddi ei nofel, *Lôn Gweunydd* (4, 3, 8)
- 15 Cyfenw lola, awdures *Dal dy Dir* (4)
- 16 Gweler 15 i lawr (5)
- 17 Cyflwr jam Angharad Tomos yng Nghyfes Rwdlan (4)
- 18 ac 8 (ar draws)
Yn y nofel hon o waith Mihangel Morgan, cawn gyfarfod â Miss Silvester, y fenyw sydd â choesau broga a chroen gwyrdd (9, 6, 5)
- 22 Ceir hanes y cwm hwn mewn cyfrol o waith Einion Thomas a gyhoeddwyd ym 1997 (5)
- 25 Addoldai cyfrol Anthony Jones (6)
- 26 Cyfres y bobl fawr (5)
- 27 Enw cyntaf awdur *National Winner* ac amryw o lyfrau Eingl-Gymreig eraill (4)
- 28 Cyfenw *V Dyn 'I Hun* (8)

I LAWR

- 1 Gweithred hanfodol o'n argraffu llyfr (6)

- 2 *Papur* -----, papur bro yr Wyddgrug a'r pentrefi cyfagos (4)
- 3 Teimlad Twm Morys tuag at ei het (3)
- 4 Cyfrol i blant am ymweliad Siôn Corn, addasiad Myrddin ap Dafydd (2, 6, 7)
- 6 *La Peste Noire* yw teitl fersiwn Ffrangeg y nofel hon o waith Wiliam Owen Roberts (1, 3)
- 7 (i lawr) a 9 (ar draws)
Nofel arbrofol i oedolion gan Aled Islwyn (2, 3, 3, 2, 4)
- 10 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Bro Conwy* a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch yn y flwyddyn 2000 (4)
- 11 Hunangofiant David Meredith, ----- *fase'n meddwl?* (3)
- 13 *Talu'r* -----, gan Arwel Vittle, nofel a leolwyd yng Nghymru 2082 (4)
- 15 (i lawr) ac 16 (ar draws)
Cyfrol ddoniol gan Glan Davies (4, 4, 5)
- 17 Nofel gan Jane Edwards, ----- yn y *Gwely* (4)
- 19 Mae hon a'i gŵr Andy newydd gyhoeddi eu hunangofiant (4)
- 20 Enw canol awdures *Y Graith* a'r *Wisg Sidan* (3)
- 21 Cyfrol yng Nghyfes Beirdd yr Uchelwyr, *Gwaith* ----- *Offeiriad* (6)
- 23 *Blas* -----, llyfr coginio gan Ferched y Wawr, Bro Tryweryn (1, 3)
- 24 *Tael* -----, llyfr i blant gan Elgan Philip Davies (4)
- 26 *Dyddiau* -----, nofel gan Gwen Redvers Jones yng Nghyfes yr Arddegau (3)

ENW
CYFEIRIAD
ENW'R PAPUR BRO

Gall chwilio gwefan
www.gwales.com
eich helpu
gyda'r atebion

gwales.com



CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Bydd atebion ac enillwyr Croesair Mawrth yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

CHWARAEON

Hir pob aros

Yn 1978 roedd trênn arbennig – y 'rugby special' – yn rhedeg o Gaergybi i Gaerdydd ar gyfer pob gêm ryngwladol. Y pris oedd £5. Roedd awyrgylch arbennig ar y trênn ac o gofio problem gwesty, a fawr o wellhad i'r A470, rwyn siŵr y buasai gwasanaeth o'r fath yn boblogaidd heddiw. Yn y tymor hwnnw roedd y tensiwn yn cynyddu o gêm i gêm. Curo Lloegr, yna Iwerddon wedi brwydr ar Ffordd Landsdowne. Yna'r Alban yng Nghaerdydd. Gêm yr eira mawr, a de Cymru wedi ei gladdu dan drwch wen am ddiwrnodiau.

Yna'r gêm olaf: y Ffrancwyr corfforol, bygythiol ar Barc yr Arfau. Dau gais i Phil Bennett a thael dirgrynol JPR ar yr asgellwr, Gourdon, yn cario'r dydd. Yn sgil y fuddugoliaeth, nifer o gewri'r 70'au yn ymddeol o rygbi ryngwladol, a dod â'r 'oes aur' i ben. Roedd blynyddoedd yr anialwch yn wynebu ein cenedl falch, a chyfnod pan oedd timau fel Rwmania a Gorllewin Samoa i flas buddugoliaeth a'r dir Cymru. Fel dywedodd un wag, 'Mae'n dda nad oedd Samoa i gyd yno!'

Eleni, roeddwn yn ffodus i fod yn y Stade de France, yn dyst i un o gemau mawr y 'Chwe Gwlad'. Am awyrgylch, am gêm, am ganlyniad.

Fel 1978, Cymru yn brwydro'n ôl, a'r taclo cadarn, digyfaddawd yn y pum munud olaf yn selio'r fuddugoliaeth – heb sôn am finio'r gobeithion.

I goroni'r diwrnod – a'r criw yn dathlu gyda mintai o Lydaw – daeth y cawr, JPR, i mewn i'r tŷ bwyta. Ei wên yn datgelu'r balchder yng nghamp y tîm ieuanc Cymreig. Pawb eisïau ei farn, holi am gemau a fu, a gofyn am lofnod neu lun. Yntau mor barod 'ymysg ei barabllus blant'. Mae'n siŵr bod sawl llun yng Nghymru, Llydaw a Ffrainc yn

cael ei ddangos â balchder erbyn hyn. Cyswllt gwyh rhwng yr hen 'oes aur', ac efallai y 'wawr newydd'.

Ni fentrais i Murrayfield, ond gyda môr coch o 40,000 wedi teithio roedd digon o gefnogaeth. Oherwydd ein record yn yr Alban, bu cryn betruso – ond yn ddi-sail. Chwythwyd yr Alban o'r neilltu gan y don newydd o Gymry ymosodol, hyderus â'u sgiliau trafod a chefnogi i ryfeddu atynt.

'Yn y cof mae dawn sawl cais.'

Yna'r Sadwrn gwefreiddiol yn stadiwm cin breuddwydion. Nid oedd gobaith cael tocyn, felly ymuno â channoedd o'r gogledd i brifddinas y 'gelyn'. Teimlad braf yw bod ymysg môr o wyrdd cyn y gêm, a hwythau'n tawelu tra roedd y 'lleiafrif disgwylidig', yn morio ein hanthem genedlaethol. Mae gan y Gwyddelod hoffter o sain ein hiaith, a braf clywed fod adfywiad i'r Wyddeleg yn Nulyn erbyn hyn.

Sylwebaeth RTE roedden ni'n dderbyn yn Nulyn, ac o'r herwydd cawsom fwy o flas awyrgylch Caerdydd na'r hyn gyflenwyd, mae'n ymddangos, gan or-siarad criw y BBC.

Fel yn 1978, cafwyd gêm – a diwrnod i'w chofio – gyda Chymru eto dan warchae yn rhan olaf y gêm.

Rhaid canmol dycnwch y tîm ifanc Cymreig. Yn bennaf, rhaid canmol gweledigaeth a hyder y tîm hyfforddi i fynnu dull o chwarae sydd wedi cynhyrfu'r miloedd dros dymor anhygoel. Y mae'r annisgwyl nawr yn ddisgwylidig gan y Cymry. Dyma'r dull o chwarae, rydym wedi ei anghofio dros y blynyddoedd hesb. Dychwelodd yr hyder, y sgiliau trafod, y cyflymdra ac yn ddi-os y ffitrwydd. Dychwelodd y wên i rygbi Cymru, a thrwy hynny i'r genedl gobeithio.

Fel mae llawer o'r gwybodysion wedi darogan, dechrau'r daith yw hon. Un peth yw cyrraedd yr uchelfannau, mater arall yw aros yno. Mwynhawn y llwyddiant a chefnogi'r dadeni mewn unrhyw ffordd y gallwn. Rhaid cofio mai ffrwyth datblygu a meithrin y gwreiddiau unrhyw lwyddiant mewn unrhyw gamp.

Allez le rouge! Slainte!

Draenog Chwaraeon

Clywed am bum 'deryn' o ardal Bethel a fentrodd i ferw Murrayfield. Wedi cymryd eu seddau, cawsant lond bol ar y llu yn mynnu gwybod pwy oedd y ferch oedd yn eistedd gyda chriw Bethel. Ie, roedd Charlotte Church wedi mynnu eistedd ymysg y fath enwogion. Mae'r draenog ar ddeall fod sgwrs 'ddiddorol' wedi cymryd lle yn ystod y gêm. Ni wyddom a yw Gavin Henson yn poeni, ac os gwelir rhyw 'hogan o Sowth yn yfed yn Y Bedol!'

Roedd dau o'r pedwar wedi eu gweld ar y fferi yn teithio i Ddilyn yng nghwmni cyfreithiwr amlwg.

Mae'r ymholiadau yn parhau i ddarganfod a oedd y cyfreithiwr yno rhag ofn y buasai ei angen i amddiffyn y ddau yn un o lysoedd Dulyn. Neu, yn ôl y si, ei fod yn gweithredu fel asiant rhag ofn fod *Eco'r Wyddfa* – neu'r *News of the World* – yn chwilio am 'exclusive.'

Cwis Chwaraeon

Ar hyn o bryd mae cyfres o gwisïau yn cael eu cynnal yn Y Bedol a'r Gors Bach, fel rhan o'r ymgyrch codi arian at Eisteddfod Eryri. I gloi y gyfres cynhelir **Cwis Chwaraeon** yn Y Bedol ar nos Fawrth, Ebrill 5ed am 8.30pm. O wybod mor boblogaidd yw'r cwisïau hyn, beth am i'r timau lleol godi tîm ar gyfer y noson.

Amser y 'Savage Cuts'

Tra mae'r byd rygbi yn llifo mewn nawws buddugoliaeth, ymddengys bod y byd pêl-droed yng Nghymru yn baglu o un anhawster i'r llall. Mae problemau ariannol Caerdydd a Wrecsam yn hysbys. Mae Abertawe – sydd ar fin symud i faes newydd sydd i'w rannu gyda'r Gweilch – yn trio'i gorau i ennill pwyntiau at ddyrchafiad, ond heb gysondeb yn eu chwarae. Mae safon y Gynghrair Genedlaethol yn gwella, ond heb ddenu'r torfeydd. A ddaeth hi'n amser i'r gynghrair ostwng i 12 clwb, fel bod mwy o arian ar gael i wella cyfleusterau.

Ar lefel ryngwladol dyma gyfnod Toshack wrth y llyw.

Ysgrifennaf y golofn cyn y gemau tyngedfennol yn erbyn Awstria, ond eisïoes mae cwmwl dros y gêm.

Bwriad Toshack yw ailadeiladu tîm, gan chwynnu allan nifer o'r hen bennau. Ym marn Toshack roedd Mark Hughes wedi bod yn rhy deyrngar i rai o'r hen bennau, a ddim wedi cyfrannu fawr i'r maes o feithrin chwaraewyr ieuanc. Yna i waethygu'r sefyllfa cawn y ffrac gyhoeddus yn ymwneud ag ymddeoliad Robbie Savage o bêl-droed ryngwladol.

Mae rhai yn dadlau y gallai chwarae cadarn, ddigyfaddawd Savage fod yn sbardun i'r newydd ddyfodiad dibrofiad. Mae eraill yn dadlau nad yw Savage bellach yn ddigon disgybledig, a bod angen mwy na rhedeg di-stop ac ambell dacl sy'n cynhyrfu'r dorf i gadarnhau ei le yn y garfan.

Efallai bod Toshack yn teimlo fod angen chwaraewr mwy creadigol. Beth bynnag yw'r dadleuon, nid yw'r ddadl gyhoeddus yn gwneud lles i ddelwedd y gêm. Mae'r ffaith fod Savage erbyn hyn wedi ymuno â Hughes yn Blackburn yn cymhlethu'r ddadl. Fel rheolwr, bydd rhaid i Toshack gyfiawnhau ei benderfyniad. Amser a ddengys.

Mae arwyddion fod mwy o drefn ym mherfformiadau timau iau Cymru erbyn hyn. Gyda Brian Flynn â chyfrifoldeb dros yr ystod o oedrannau, gobeithir cael cysondeb mewn trefniadaeth a dull o chwarae. Mae ymgais hefyd i ddarganfod y chwaraewyr ifanc sy'n gymwys i gynrychioli Cymru.

Buasai'n wyrth pe buasai Cymru'n cyrraedd rowndiau terfynol Cwpan y Byd, ond bydd y cefnogwyr taer yn mynnu bod arwyddion o ddatblygiad. Gobeithiwn mai dyma'r adeg i'n chwaraewyr ieuanc – fel yn y tîm rygbi – gamu i'r bwlch a dangos eu balchder wrth gynhyrchioli eu gwlad.

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r eyleh)
John Elton (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Llael (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01240) 355055

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846